

# Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – Diweddariad ar gynnydd

Mai 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn**

**unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **4** |
| **Prif ganfyddiadau** | **8** |
| **Argymhellion** | **10** |
| **Crynodeb o ddata** | **12** |
| **Ymagweddau ysgolion at wella presenoldeb** | **14** |
| **Heriau / rhwystrau rhag gwella presenoldeb disgyblion uwchradd** | **18** |
| **Ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar allu ysgolion i wella presenoldeb disgyblion** | **30** |
| **Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer gwella presenoldeb** | **36** |
| **Cwestiynau i gynorthwyo ysgolion wrth werthuso'u gwaith i wella presenoldeb disgyblion** | **37** |
| **Atodiad 1: Y camau nesaf** | **39** |
| **Atodiad 2: Dadansoddi data** | **40** |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **48** |
| **Cyfeiriadau** | **54** |

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn fersiwn ddiweddaredig o'n hadroddiad thematig blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024 yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Mae'r canfyddiadau diweddaredig hyn wedi'u seilio ar dystiolaeth arolygu ac ymgysylltu â'r ysgolion oedd â chameos yn yr adroddiad blaenorol, yn ogystal â phump o ysgolion ychwanegol lle bu gwelliannau mewn presenoldeb dros y deuddeg mis diwethaf. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r data presenoldeb cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd diweddariadau i'r adroddiad hwn mewn testun glas er mwyn ei gwneud yn hawdd i ddarllenwyr adnabod newidiadau.

Yn yr achosion gorau, mae ysgolion wedi cynnal ffocws cryf ar wella presenoldeb disgyblion ac wedi nodi bod presenoldeb yn flaenoriaeth bwysig i'r ysgol gyfan. Yn y cameos diweddaredig, rydym wedi nodi ychydig o ddulliau newydd y mae ysgolion wedi eu rhoi ar waith sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb.

Mae ysgolion yn parhau i gael pryderon am yr heriau i'r disgyblion hynny sy'n byw o fewn y radiws tair milltir i'r ysgol, ac felly nid ydynt yn gallu manteisio ar gludiant am ddim i'r ysgol. Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr y siaradom â nhw fod hyn yn parhau i fod yn rhwystr pwysig iawn rhag gwella presenoldeb. Nodon nhw hefyd fod hyn yn aml yn effeithio'n anghymesur ar y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Her ychwanegol a nodwyd gan arweinwyr ysgolion yw arholiadau Blwyddyn 11. O ystyried fod arholiadau'n cael eu cynnal ddechrau mis Mai, mae'n heriol i ysgolion gynnal presenoldeb disgyblion Blwyddyn 11, pan mae disgyblion yn awyddus i aros gartref i adolygu. Nododd pob un o'r ysgolion y siaradom â nhw eu bod yn gweld gostyngiad nodedig ym mhresenoldeb Blwyddyn 11 yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig lle mae ysgolion wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i wella presenoldeb y grŵp blwyddyn hwn yn arbennig.

Er bod awdurdodau lleol wedi parhau i flaenoriaethu gwella presenoldeb, mewn mwyafrif o achosion, nid yw'r gwaith hwn wedi cael effaith ddigonol. Mae'r cymorth a'r her ar gyfer gwella presenoldeb yn parhau i fod yn rhy amrywiol ledled Cymru. Nododd ychydig o arweinwyr ysgolion fod her hefyd lle na fydd rhai awdurdodau lleol yn cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i herio teuluoedd i wella presenoldeb disgyblion.

Pan gyhoeddom yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2024, nodom nad yw'r data y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi ynghylch presenoldeb yn darparu digon o fanylion i ysgolion wneud cymariaethau pwysig, er enghraifft rhwng grwpiau o ddisgyblion a

grwpiau blwyddyn. Mae diffyg dadansoddiad manylach yn parhau i gyfyngu ar allu ysgolion i werthuso effaith eu gwaith yn llawn, gwneud cymariaethau a nodi gwendidau pwysig mewn perfformiad.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd ers dileu'r cyfyngiadau a oedd ar waith o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae wedi'i seilio ar ymgysylltu â sampl o 41 o ysgolion, yr holl awdurdodau lleol, a thystiolaeth o'n harolygiadau uwchradd a'n canfyddiadau dilynol er Chwefror 2022. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r data presenoldeb cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ledled Cymru, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi dirywio ers dychwelyd i'r ysgol ac wedi bod yn araf yn gwella. Mae presenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn yn is na phresenoldeb y disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfraddau presenoldeb ledled Cymru yn parhau i beri pryder ac mae cyfraddau absenoldebau parhaus wedi cynyddu'n sylweddol (Llywodraeth Cymru, 2023a; 2023b). Dywedodd arweinwyr ysgolion fod cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol oherwydd heriau iechyd meddwl a gorbryder. O ganlyniad, mae ysgolion wedi cynyddu eu cymorth ar gyfer lles emosiynol disgyblion trwy ymyrraeth dargedig a darpariaeth gyffredinol.

Mae canfyddiadau'n dangos, lle roedd arweinwyr yn fwyaf effeithiol o ran ysgogi gwelliannau mewn presenoldeb, roeddent wedi canolbwyntio'n ddygn ar welliant, wedi gwerthuso effaith eu gwaith yn effeithiol, wedi defnyddio data'n drylwyr ac wedi sicrhau diwylliant cryf o ddisgwyliadau uchel ynghylch presenoldeb disgyblion. Yn ychwanegol, roedd arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio'n gryf ar addysgu o ansawdd uchel ac ar greu cwricwlwm ysgogol a oedd yn darparu profiadau dysgu difyr i helpu annog disgyblion i barhau i fynychu. Pan oedd y prosesau hyn yn llai effeithiol, nid oedd arweinwyr yn creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer presenoldeb, nid oeddent yn ddigon rhagweithiol yn ymateb i arwyddion cynnar o bresenoldeb gwael, ac nid oeddent yn defnyddio data'n ddigon rheolaidd nac yn ddigon trylwyr i werthuso effaith eu gwaith.

Rydym wedi nodi nifer o rwystrau pwysig a oedd yn wynebu ysgolion wrth fynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Roedd y rhain yn cynnwys amgyffrediadau rhieni o bwysigrwydd presenoldeb da, costau cynyddol yn gysylltiedig â chludiant ysgol, y diffyg cyllid dynodedig gan Lywodraeth Cymru i wella presenoldeb, gan gynnwys ei natur tymor byr, a'r amrywiad yn effaith y cymorth a gafodd ysgolion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ysgolion dargedu adnoddau, creu capasiti i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd neu gynllunio'n strategol i wella presenoldeb.

Er bod gan ysgolion rôl bwysig mewn gwella presenoldeb, mae'n glir na allant fynd i'r afael â'r mater hwn ar eu pen eu hunain. Bydd angen dull amlasiantaethol ac ar draws

gwasanaethau, ynghyd â chymorth gan Lywodraeth Cymru, i wella presenoldeb. I gefnogi gwelliannau, rydym wedi nodi 15 o argymhellion sydd wedi'u bwriadu i gefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i ymateb i'r her genedlaethol i wella presenoldeb.

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn fersiwn ddiweddaredig o'n hadroddiad thematig blaenorol yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Mae'r dystiolaeth wedi'i seilio ar ganfyddiadau arolygu, yn ogystal ag ymgysylltu ag ysgolion sydd wedi llwyddo i gynnal eu ffocws ar wella cyfraddau presenoldeb dros y deuddeg mis diwethaf. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r data presenoldeb cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y strategaethau a'r camau gweithredu yr oedd ysgolion uwchradd yn eu defnyddio er mwyn gwella presenoldeb disgyblion. Mae hefyd yn ystyried y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ymarferol a'r rhwystrau a nododd arweinwyr ysgolion i ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, ac felly'n gwella presenoldeb. Mae hefyd yn cynnwys cameos ac astudiaethau achos arfer effeithiol. Mae'r adroddiad diweddaredig hwn yn atgyfnerthu'r cryfderau mewn ymagweddau at wella presenoldeb, yn rhoi diweddariadau ar yr ysgolion a ddarparodd gameos arfer effeithiol yn ein hadroddiad diwethaf, ac yn nodi ychydig o heriau newydd y mae arweinwyr ysgolion wedi'u nodi. Hefyd, mae ychydig o gameos ychwanegol a ddarparwyd gan ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ddiweddar ac sydd wedi dangos gwelliant cryf ym mhresenoldeb disgyblion.

Ers y pandemig, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, wedi dirywio ac yn parhau i beri pryder. Nod yr adroddiad hwn yw nodi materion a heriau cyffredin cenedlaethol yn ogystal â nodi dulliau effeithiol y mae arweinwyr ysgolion yn eu defnyddio i ysgogi gwelliannau mewn presenoldeb.

Ers cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Ionawr 2024, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion oedran uwchradd wedi gwella ychydig yng Nghymru. Mae data presenoldeb presennol heb ei wirio yn dangos bod presenoldeb yn y sector uwchradd wedi cynyddu 1.1% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac adroddwyd ei fod yn 89% ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn sylweddol is na lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn bryder nodedig, ac yn 81.1% ar hyn o bryd, er bod y bwlch rhwng y disgyblion hyn a'u cyfoedion yn cau yn araf iawn. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024, roedd argymhelliad i wella presenoldeb mewn

tua hanner yr ysgolion uwchradd. Yn ystod y flwyddyn academaidd hyd yma, mae tua thri chwarter yr ysgolion uwchradd wedi cael argymhelliad i wella presenoldeb.

## Cefndir

Roedd gwella presenoldeb yn argymhelliad mewn ychydig dros draean o arolygiadau ysgolion uwchradd a thraean o arolygiadau ysgolion pob oed ers i ni ailddechrau arolygu ym mis Chwefror 2022, yn dilyn cyfnodau clo o ganlyniad i'r pandemig. Mewn hanner yr achosion, roedd yr argymhelliad yn cynnwys cyfeiriad at bresenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Cyn y pandemig, roedd presenoldeb disgyblion yn gwella'n raddol, a dim ond tua dwy o bob deg ysgol uwchradd a arolygwyd a gafodd argymhelliad i wella presenoldeb yn ein harolygiadau er 2017. Yn ystod y pandemig, dirywiodd cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyflym, ac mewn llawer o achosion, cafodd ysgolion anhawster yn ymgysylltu o'r newydd â lleiafrif o ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw ffigurau presenoldeb ledled Cymru wedi adfer yn ddigon cyflym i lefelau cyn y pandemig. Yn benodol, bu cynnydd sydyn yn nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus. Mae'r gyfradd hon wedi treblu er 2018 (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae ymchwil yn awgrymu bod y disgyblion hynny sy'n absennol yn barhaus 'yn anghymesur yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol' (Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2023).

Yn ddiweddar, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ddata cenedlaethol ar gyfer 2022-2023 ar absenoldebau mewn ysgolion uwchradd. Dyma oedd y prif ganfyddiadau o'r dadansoddiad hwn:

- Mae canran y sesiynau hanner diwrnod a gollir gan ddisgyblion oedran ysgol uwchradd wedi dyblu i 12.5% rhwng 2018-2019 a 2022-2023. Mae hyn yn golygu bod disgybl yn colli tuag un diwrnod bob pythefnos, ar gyfartaledd.
- Collodd disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) 20.6% o sesiynau hanner diwrnod yn 2022-2023, tra collodd disgyblion oedran ysgol uwchradd nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim 10.2% o sesiynau hanner diwrnod. Roedd y ddau ffigur hyn tua dwywaith y cyfraddau absenoldebau yn ystod 2018-2019.
- Dirywiodd presenoldeb yr holl grwpiau ethnig rhwng 2018-2019 a 2022-2023. Roedd y gostyngiadau ym mhresenoldeb y rhan fwyaf o grwpiau ethnig ar lefel debyg i'r rhai a welir yn genedlaethol, ar y cyfan.

- Collwyd 15.5% o sesiynau hanner diwrnod gan ddisgyblion Blwyddyn 11, o gymharu â 9.4% o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 7, yn 2022-2023.
- Mae canran y disgyblion oedran uwchradd a oedd yn absennol yn barhaus wedi treblu i 16.3% rhwng 2018-2019 a 2022-2023.
- Roedd 35.6% o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol yn barhaus yn 2022-2023, o gymharu ag 11.2% o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd nad ydynt yn gymwys i gael PYDd.
- Roedd 22.4% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn absennol yn barhaus, o gymharu â 10.2% o ddisgyblion Blwyddyn 7, yn 2022-2023. (Llywodraeth Cymru, 2023a).

Mae'r amrywiad mewn presenoldeb rhwng ysgolion yn bryder nodedig. Mae cyfraddau presenoldeb ar draws ysgolion uwchradd yn amrywio o 75% i 95%. Mae cyfraddau presenoldeb cyn y pandemig yn amrywio o 88.6% i 97.1%. Yn ychwanegol, mae'r gwahaniaeth mewn presenoldeb rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion. Wrth ystyried canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus o'r ysgol, mae hyn yn amrywio o 2.7% i 42.6% o ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru.

Ers y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth am bresenoldeb bob wythnos. Er y bu hyn yn fuddiol, nid oedd ystod gyffredinol y data presenoldeb yn ddigon cynhwysfawr i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol neu helpu swyddogion y llywodraeth i nodi heriau'n gynnar. Mae hyn oherwydd ei bod yn darparu data cenedlaethol yn unig, yn hytrach na chynnwys dadansoddiad o bresenoldeb ar gyfer grwpiau o ddisgyblion mewn gwahanol fathau o ysgolion. Er enghraifft, nid yw'n darparu data presenoldeb disgyblion uwchradd a chynradd ar wahân ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

Mae ymchwil yn dweud wrthym fod 'absenoldeb ysgol yn niweidiol i ddysgu, cyflawniad academaidd a deilliannau' (Keppens, 2023). Dywedodd Keppens hefyd fod:

> myfyrwyr sy'n absennol yn derbyn llai o oriau o gyfarwyddyd, yn colli rhyngweithio rhwng myfyriwr ac athro, rhwng cyfoedion ac unrhyw ryngweithio perthnasol arall a gweithgareddau a allai symbylu eu datblygiad academaidd a seicogymdeithasol, gan arwain at ganlyniadau negyddol yn y tymor byr a'r tymor hir (2023, tud.1).

Yn ychwanegol, canfu'r Sefydliad Gwaddol Addysgol fod presenoldeb gwael:

> yn gysylltiedig â chyrhaeddiad academaidd gwael ar draws yr holl gyfnodau, yn ogystal â nodweddion gwrthgymdeithasol, gweithgarwch troseddol a chanlyniadau ymddygiadol negyddol (2023, tud.1).

Mae’r gwaith ymchwil hwn, ynghyd â data cenedlaethol ar bresenoldeb, yn dangos darlun pryderus ac yn amlygu angen brys i wella presenoldeb oedran ysgol uwchradd yn gyflym ledled Cymru.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn Senedd Cymru adroddiad o ganlyniad i’w hymchwiliad i absenoldeb disgyblion. Mae’r adroddiad hwn yn nodi “pryderon hirsefydlog am absenoldeb disgyblion” ac yn darparu nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru (Senedd Cymru, 2022). Mae rhai o’r argymhellion yn debyg i’r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Wrth ymateb i hyn a’r pryderon cenedlaethol ynghylch presenoldeb disgyblion, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tasglu presenoldeb yn ddiweddar i weithio gyda’i gilydd i nodi ffyrdd y gall y system gydweithio i wella cyfraddau presenoldeb disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2023c). Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd ganllawiau wedi’u diweddaru ar wella ymgysylltiad â dysgu a phresenoldeb (Llywodraeth Cymru, 2023d). Nod y canllawiau hyn yw amlinellu arfer dda awgrymedig ac maent yn cyfeirio at fwy o ganllawiau ac adnoddau sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau. Fel rhan o hyn, newidiodd Llywodraeth Cymru y trothwy hefyd ar gyfer disgyblion sy’n absennol yn barhaus o fod yn unrhyw ddisgyblion yr oedd eu presenoldeb islaw 80% yn y gorffennol i’r rhai y mae eu presenoldeb islaw 90% (Llywodraeth Cymru, 2023d). Mae’r disgwyliad cynyddol hwn yn tanlinellu pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae’r data ar gyfer absenoldeb parhaus yn yr adroddiad wedi’i seilio ar yr adeg pan oedd trothwy Llywodraeth Cymru ar gyfer presenoldeb islaw 80%.

Er y bu cynnydd yn ddiweddar mewn ymchwil ynghylch gwella presenoldeb disgyblion, mae ansawdd cyffredinol y dystiolaeth ar bresenoldeb yn wan; ceir tystiolaeth gyfyngedig o ansawdd uchel ar ymagweddau at gefnogi presenoldeb ac mae mwyafrif o astudiaethau wedi cael eu cynnal yn Unol Daleithiau America (Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2023).

### Dadansoddiad data diweddaredig

Yng nghyhoeddiad blaenorol yr adroddiad thematig hwn ar bresenoldeb, adroddom fod gwella presenoldeb yn argymhelliad mewn ychydig dros draean o arolygiadau ysgolion uwchradd a thraean o arolygiadau ysgolion pob oed rhwng yr adeg yr ailddechreuom arolygu ym mis Chwefror 2022 a diwedd blwyddyn academaidd 2022-2023. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, roedd argymhelliad i wella presenoldeb mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd. Yn ystod y flwyddyn hon, roedd cyfraddau presenoldeb ar gyfer ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn ystyfnig o isel, gan wella 0.5% pwynt yn unig. Mae hyn yn bryder sylweddol, ac o ganlyniad, yn ystod y flwyddyn academaidd hyd yma, mae tua thri chwarter o ysgolion uwchradd wedi cael argymhelliad i wella presenoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau data manwl ar gyfer y flwyddyn 2023-2024 ar absenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

- Rhwng blynyddoedd academaidd 2022-2023 a 2023-2024, bu gwelliant o 0.5% pwynt yn unig yn y gyfradd presenoldeb ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r gyfradd yn parhau i fod 5.7% pwynt islaw lefelau cyn y pandemig. Mae hyn yn golygu bod disgyblion ysgolion uwchradd, ar gyfartaledd, yn colli bron i 11 diwrnod o addysg yn fwy bob blwyddyn nag oeddent cyn y pandemig.
- Ar y gyfradd honno o welliant, byddai'n cymryd dros ddeng mlynedd i gyfraddau presenoldeb adfer i lefelau cyn y pandemig.
- Cyfradd presenoldeb Blwyddyn 11 oedd yr isaf o blith pob blwyddyn ysgol. Yn 2023-2024, roedd disgyblion Blwyddyn 11 yn bresennol am 85.3% o sesiynau, sef cynnydd bach o 84.5% yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Felly, mae disgyblion Blwyddyn 11 yn colli bron i ddiwrnod o bob chwe diwrnod o'u haddysg.
- Yn ystod y pandemig, tyfodd y bwlch rhwng presenoldeb disgyblion oedran uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion o 5.2% pwynt i 10.4% pwynt. Roedd hyn yn bryder arbennig. Er bod presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu ychydig rhwng 2022-2023 a 2023-2024, mae'r bwlch yn parhau ar 10.4%, ac mae'r disgyblion hyn yn colli un diwrnod o'u haddysg yr wythnos, ar gyfartaledd.
- Mae'r amrywiad mewn presenoldeb rhwng ysgolion yn bryder nodedig. Mae'r gwahaniaeth rhwng presenoldeb yr ysgol sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru a phresenoldeb yr ysgol sydd â'r gyfradd isaf yn 19.5% pwynt o hyd. Mae hyn yn fwy na dwbl yr amrediad pwyntiau 8.5% a welwyd yn 2018-2019.

I ymateb i'r pryderon hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd bob pythefnos ar bresenoldeb. Er nad yw'r data hwn wedi cael ei wirio, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn agos iawn at y data wedi'i ddilysu a gyhoeddwyd yn ddiweddarach. Ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol, hyd at 14 Mawrth 2025, mae presenoldeb uwchradd yn dangos gwelliant o'r diwedd. O gymharu â'r un cyfnod ym mlwyddyn academaidd 2023-2024, mae'r data'n dangos bod:

- Presenoldeb cyffredinol ar gyfer ysgolion uwchradd wedi cynyddu 1.1% pwynt i 89%, er bod hyn yn parhau i fod gryn dipyn yn is na lefelau cyn y pandemig.
- Bu gostyngiad nodedig yng nghyfradd absenoldebau parhaus ar y trothwy 10%, sef y disgyblion hynny sy'n absennol am o leiaf 10% o sesiynau.
- Mae presenoldeb disgyblion oedran uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o 80.2% i 81.1%, er bod hyn yn bryderus o isel ac yn sylweddol is na lefelau cyn y pandemig, ac mae disgyblion yn colli gormod o'u haddysg o hyd.

## Prif ganfyddiadau

- Cyn y pandemig, roedd presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yn gwella'n raddol ymhlith yr holl ddisgyblion, yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyfran y disgyblion a oedd yn absennol o'r ysgol yn barhaus yn gostwng, er ei bod yn parhau'n rhy uchel.

- Er 2020, bu cynnydd nodedig yng nghanran y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol. Mae absenoldeb awdurdodedig ac absenoldeb anawdurdodedig wedi cynyddu'n gyflym, a bu gwelliant cyfyngedig yn unig yn 2022-2023.

- Er bod setiau data craidd a rennir gydag ysgolion yn ddefnyddiol, byddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn galluogi ysgolion i werthuso'n fwy cadarn.

- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a llawer o awdurdodau lleol yn deall pwysigrwydd gwella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith i wella presenoldeb wedi cael digon o effaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

- Lle'r oedd ysgolion yn dechrau ysgogi gwelliannau mewn presenoldeb, roedd gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel, roeddent yn monitro ac yn gwerthuso cyfraddau presenoldeb yn drylwyr, ac roedd ganddynt brosesau effeithiol i werthuso effaith eu gwaith.

- Lle'r oedd ysgolion yn cael anhawster yn gwella presenoldeb, roedd arweinwyr yn tueddu i gredu eu bod yn gwneud popeth y gallent, er nad oedd hyn yn cael effaith ddigonol, ac nid oeddent yn defnyddio'r ystod eang o wybodaeth oedd ar gael i olrhain, monitro neu ymyrryd â phresenoldeb gwael.

- Mae llawer o ysgolion wedi gwella'u hymagweddau at gasglu barn disgyblion ar sut gallant weithio i wella presenoldeb. Fodd bynnag, caiff y farn hon ei chasglu'n bennaf gan ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd, felly nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth i arweinwyr am y rhwystrau i'r disgyblion hynny nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn ddigon da.

- Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr mewn ysgolion yn canolbwyntio'n gryf ar wella addysgu ac arlwy eu cwricwlwm i gynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n effeithiol pan fyddant yn yr ysgol.

- At ei gilydd, mae cymorth awdurdodau lleol ar gyfer gwella presenoldeb wedi cael effaith gyfyngedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid oedd swyddogion gwella

ysgolion yn herio nac yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion yn ddigon da i wella'r agwedd hon ar eu gwaith, a phan oedd disgyblion yn cyfeirio at wasanaethau awdurdodau lleol, nid oedd swyddogion yn adeiladu'n ddigon da ar y gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud gan ysgolion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio a thargedu cymorth.

- Roedd heriau ariannol presennol, ynghyd â'r gostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion, wedi lleihau gallu staff cymorth i ymateb i bryderon. Yn ychwanegol, nid oedd adnoddau i gynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb yn cael eu blaenoriaethu'n effeithiol bob amser.

- Roedd nifer o rwystrau rhag gwella presenoldeb disgyblion, ac roedd yn gynyddol anodd i ysgolion fynd i'r afael â'r rhain. Roedd y rhain yn cynnwys dirywiad yn amgyffrediad rhieni am bwysigrwydd presenoldeb da, gallu ysgolion i ymateb o gofio'r nifer gynyddol o ddisgyblion targedig, ac amseriad tymhorau a gwyliau'r ysgol.

- Roedd y ffaith fod disgyblion ond yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw y tu hwnt i radiws tair milltir yn her benodol. Roedd arweinwyr ysgolion wedi nodi, yn ystod misoedd pan mae'n bwrw mwy o law, a boreau a nosweithiau tywyllach, nad oedd disgyblion sydd fel arfer yn cerdded i'r ysgol, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn mynychu mor aml, ar y cyfan.

- Nododd arweinwyr ysgolion fod angen cynyddu eu ffocws ar wella prydlondeb disgyblion i'r ysgol a gwersi, yn ogystal â'u presenoldeb. Yn ychwanegol, mae arweinwyr wedi nodi'r her ynglŷn â chynnal presenoldeb Blwyddyn 11 rhwng y Pasg a hanner tymor mis Mai (wrth i arholiadau ddechrau). Mae hyn yn aml yn cael effaith negyddol ar eu cyfraddau cyffredinol sy'n cael eu casglu ar ddiwedd y cyfnod hwn.

- Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd ysgolion wedi cynyddu eu gallu i ddarparu cymorth targedig i wella presenoldeb disgyblion. O ystyried y pwysau presennol ar gyllidebau ysgolion, roedd arweinwyr ysgolion yn pryderu am gynaliadwyedd y gwaith hwn. Byddai ysgolion yn croesawu cyllid tymor hirach, wedi'i glustnodi i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth genedlaethol bwysig hon.

- Creodd y flwyddyn ysgol heriau ychwanegol i wella presenoldeb disgyblion. Nododd arweinwyr ysgolion pan oedd tymhorau'n hir, er enghraifft tymor yr hydref sy'n para tan ddiwedd mis Rhagfyr, fod presenoldeb disgyblion yn gostwng yn ystod ychydig wythnosau olaf y tymor.

- Ceir tystiolaeth ymchwil gyfyngedig am y dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer gwella presenoldeb neu am y ffactorau sy'n dylanwadu ar bresenoldeb disgyblion.

- Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae presenoldeb yn parhau i beri pryder ledled Cymru, ac mae amrywiad mawr mewn cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion unigol ledled Cymru.

## Argymhellion

**Er bod dau argymhelliad wedi cael eu hychwanegu at yr adroddiad hwn, mae'r argymhellion a ddarparwyd ym mis Ionawr 2024 yn parhau i fod yn bwysig, ac nid ydynt wedi cael eu newid na'u diweddaru.**

**Dylai ysgolion:**

- Gryfhau cynllunio i wella presenoldeb yn strategol, gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o ddata i nodi tueddiadau ac mewn cynllunio ymagweddau tymor hir at wella presenoldeb disgyblion
- Cryfhau eu hymagwedd at fonitro, gwerthuso a gwella presenoldeb
- Cryfhau eu gwaith gyda rhieni / gofalwyr i esbonio pam mae presenoldeb da yn bwysig
- Datblygu dulliau mwy effeithiol i gasglu barn disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- Sicrhau bod addysgu ac arlwy'r cwricwlwm yn ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu

**Dylai awdurdodau lleol:**

- Roi her a chymorth rheolaidd ac effeithiol i ysgolion i wella presenoldeb disgyblion a helpu gwerthuso effaith eu gwaith
- Sicrhau bod ymyriadau awdurdodau lleol yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan ysgolion
- Gweithio gydag ysgolion i'w cynorthwyo i weithio gyda rhieni / gofalwyr i ddeall pwysigrwydd presenoldeb da

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- Weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod targedau clir ar gyfer gwella presenoldeb yn cael eu gosod a'u cytuno gydag ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.
- Datblygu ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da. Yn benodol, gweithio gyda disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

- Ystyried sut gallai disgyblion sy'n byw o fewn y radiws tair milltir nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim gael eu cynorthwyo'n well i fynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd
- Cyhoeddi setiau data craidd ar gyfer presenoldeb ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys dadansoddiad atchweliad, gweddillebau ar gyfer absenoldebau parhaus a phresenoldeb grwpiau blwyddyn i gefnogi prosesau gwerthuso'r ysgolion eu hunain yn well
- Parhau i ddarparu dadansoddiad wythnosol o bresenoldeb ar lefel ysgol i ddarparu gwybodaeth fwy mynych a gwella ansawdd y data hwn
- Ystyried sut y gellir dyrannu cyllid yn fwy effeithiol i gynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb
- Ystyried sut gallai diwygio'r flwyddyn ysgol gynorthwyo disgyblion yn well i fynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd
- Ymchwilio i nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb gwael a darganfod y dulliau mwyaf effeithiol o wella presenoldeb
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried sut i liniaru effaith arholiadau ar gyfraddau presenoldeb ysgolion yn gyffredinol

# Crynodeb o ddata

## Presenoldeb cyn y pandemig

Yn 2009, cyfradd y presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru oedd 91.0% (Llywodraeth Cymru, 2023e). Gwelodd Llywodraeth Cymru ar y pryd fod hyn yn annerbyniol a daeth gwella presenoldeb yn flaenoriaeth genedlaethol. Roedd gwella presenoldeb disgyblion yn destun ystod o adolygiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol yn y blynyddoedd dilynol. Roedd y rhain yn cynnwys:


- Adroddiad ar Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR) (Reid, 2008) a chynllun gweithredu dilynol NBAR (Llywodraeth Cymru, 2009)
- 'Anerchiad Mae Addysgu'n Gwneud Gwahaniaeth' gan y Gweinidog Addysg (Sefydliad Materion Cymreig, 2011)
- Cynllun gweithredu diwygiedig ymddygiad a phresenoldeb (Llywodraeth Cymru, 2011a)
- Bandio ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2011b)
- Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru, 2012)
- Grant Presenoldeb Consortia (Llywodraeth Cymru, 2013a)
- Ymchwiliad i Ymddygiad a Phresenoldeb Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru, 2013) ac ymateb Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013b)
- Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd (Llywodraeth Cymru, 2013c)

Mae mwy o fanylion ar y mentrau hyn ar gael yn Atodiad 2 adroddiad thematig blaenorol Estyn ar bresenoldeb (Estyn, 2014, tud. 26-29).

Yn 2009, dechreuodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi data presenoldeb ar lefel ysgolion uwchradd ar ffurf Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Mae'r setiau data craidd hyn yn cynnwys ystod o wahanol graffiau, siartiau a thablau sy'n galluogi ysgolion a rhanddeiliaid eraill i gymharu presenoldeb ysgol â phresenoldeb ysgolion ag iddynt gyd-destun tebyg.

Roedd presenoldeb yn amlwg yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn 2010, ac yn y tair blynedd ddilynol, roedd gwella presenoldeb yn argymhelliad mewn bron i draean o arolygiadau ysgolion uwchradd yng Nghymru. Dechreuodd cyfraddau presenoldeb wella hyd at 2019 (Llywodraeth Cymru, 2023e).

**Ffigur 1: Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd 2007/08 i 2024/25***




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023e

Mae Ffigur 1 yn dangos cyfraddau presenoldeb disgyblion yng Nghymru rhwng 2007-2008 a 2022/23. Yn y pedair blynedd rhwng 2010-2011 a 2014-2015, cynyddodd cyfraddau presenoldeb disgyblion oedran uwchradd 2.5 pwynt canran. Cynhaliwyd y gwelliannau hyn yn y blynyddoedd ar ôl 2014-2015 ac roedd y cyfartaledd cenedlaethol yn gyson o gwmpas 94%. Ar ôl y pandemig, y flwyddyn academaidd gyntaf y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata presenoldeb wedi'i ddilysu oedd 2022-2023. Mae'r data'n dangos bod y cyfraddau presenoldeb ar gyfer ysgolion uwchradd wedi disgyn yn sylweddol ar ôl y pandemig o 93.8% i 87.5%, sef gostyngiad o 6.3 pwynt canran. Mae hyn yn gyfystyr â'r disgybl cyffredin yn colli 12 diwrnod ysgol yn fwy mewn blwyddyn academaidd. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd yn nifer yr argymhellion ar gyfer gwella presenoldeb a gafodd eu cynnwys gan Estyn yn ei adroddiadau ar ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd 2022-2023. Yn yr adroddiadau hyn, rhoddwyd argymhelliad i wella presenoldeb i ryw hanner yr ysgolion a arolygwyd.

Ers dychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig, mae cyfraddau presenoldeb wedi gostwng ac nid ydynt wedi gwella yn ôl i lefelau cyn y pandemig.

Dyma oedd y prif ganfyddiadau o'r cyhoeddiad diweddar am bresenoldeb ar gyfer 2022-2023:

- Roedd presenoldeb disgyblion oedran ysgol uwchradd wedi gostwng yn gyflym o gymharu â chyfraddau cyn y pandemig

- Roedd presenoldeb y disgyblion hynny a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn islaw cyfraddau disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- Wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, roedd eu presenoldeb yn gwaethygu, ar y cyfan
- Roedd cyfradd yr absenoldebau parhaus wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2023a)

## Ymagweddau ysgolion at wella presenoldeb

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yr ymgysylltom â nhw yn cydnabod pwysigrwydd gwella presenoldeb ac roedd llawer ohonynt yn rhoi blaenoriaeth ysgol gyfan i hyn. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt yn unig oedd wedi gwella presenoldeb, felly roedd cyfraddau wedi dychwelyd i fod yn agos at lefelau cyn y pandemig. Roedd gan leiafrif o ysgolion ffocws cryf ar wella presenoldeb ac roeddent yn blaenoriaethu adnoddau'n ofalus gyda'r nod i ysgogi gwelliannau. Fodd bynnag, roedd effaith strategaethau ysgolion i wella presenoldeb yn rhy amrywiol.

Roedd yn glir nad oedd un dull penodol yn gwella presenoldeb yn ddibynadwy ac nid oedd ymyriadau a oedd yn gweithio i rai disgyblion yn gweithio i ddisgyblion eraill. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir, yn y rhan fwyaf o ysgolion effeithiol, fod arweinwyr ar bob lefel yn canolbwyntio'n ddygn ar wella presenoldeb ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran cyfraddau presenoldeb.

Pan oedd ysgolion yn effeithiol yn gwella presenoldeb, roedd arweinwyr:

- yn creu diwylliant cryf o wella presenoldeb lle roedd pob un o'r staff yn gwybod beth oedd eu rôl mewn cyflawni'r nod pwysig hwn
- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o bresenoldeb yr holl ddisgyblion ac yn cyfleu'r rhain yn eglur i gymuned yr ysgol gyfan
- yn canolbwyntio'n dda ar wobrwyo disgyblion unigol sydd â gwelliannau nodedig yn eu presenoldeb
- yn gweithio'n agos â rhieni a gofalwyr i hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol / gwell
- yn cynllunio, yn monitro ac yn gwerthuso'u prosesau ar gyfer gwella presenoldeb yn agos ac yn rheolaidd
- yn dadansoddi data presenoldeb yn fforensig ac yn ystyried presenoldeb yr holl grwpiau o ddisgyblion yn ofalus

- yn defnyddio'u dadansoddiad yn effeithiol i dargedu'r cymorth gorau ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion i wella'u presenoldeb
- yn cynnwys disgyblion a rhieni / gofalwyr mewn datblygu'r cymorth mwyaf effeithiol i wella presenoldeb disgyblion unigol
- yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro a gwella presenoldeb disgyblion
- yn herio ac yn cynorthwyo rhieni / gofalwyr pan nad oedd eu plant yn mynychu'n rheolaidd, ac yn gwneud eu disgwyliadau'n glir o sut beth yw presenoldeb da
- yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn helpu disgyblion a rhieni / gofalwyr i ddeall pwysigrwydd presenoldeb a'i effaith ar gyrhaeddiad
- yn deall pwysigrwydd addysgu a chwricwlwm cryf er mwyn ennyn ymgysylltiad disgyblion â'r ysgol
- yn cynllunio'n barhaus ar gyfer gwelliant mewn presenoldeb
- yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i dargedu a gwella presenoldeb, er enghraifft trwy gyflogi staff yr oedd eu prif rôl yn ymwneud â thargedu a chynorthwyo disgyblion i wella'u presenoldeb
- yn gweithio'n agos â'u hysgolion cynradd clwstwr i dargedu a chynorthwyo disgyblion bregus trwy'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o bresenoldeb ac ymgysylltiad cadarnhaol â dysgu. Nid oedd arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn derbyn eu bod yn 'gwneud popeth o fewn eu gallu', ond roeddent yn ystyried yn gyson effaith eu gwaith ar bresenoldeb disgyblion. Roeddent yn dathlu presenoldeb disgyblion a oedd yn dechrau mynychu'n amlach ond hefyd yn cydnabod bod cyfraddau presenoldeb cenedlaethol yn isel a, hyd yn oed os oedd eu hysgol yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg, roeddent yn parhau i ymdrechu i wella presenoldeb ymhellach a gweithio tuag at lefelau cyn y pandemig.

Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn defnyddio'u prosesau'n dda i herio a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael ac yn gweithio'n rheolaidd gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr a chymuned yr ysgol i nodi a lleihau unrhyw rwystrau rhag mynychu'r ysgol. Sylwodd llawer o arweinwyr fod cynnydd yn effaith problemau yn gysylltiedig ag iechyd meddwl ar gyfraddau presenoldeb. Pan oedd ysgolion yn ymateb i hyn yn effeithiol, roedd arweinwyr yn ystyried yr heriau sy'n wynebu disgyblion unigol yn agos ac yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith i leddfu pryderon a chynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol. Roeddent yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth teilwredig i ddisgyblion unigol.

### Cameo: Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant – ymagwedd ysgol gyfan at gefnogi presenoldeb

Datblygodd Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ymagwedd glir a

strwythuredig at ymateb i unrhyw bryderon am bresenoldeb disgyblion. Roedd gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o bresenoldeb yr holl ddisgyblion, ac er gwaethaf y ffaith eu bod yn perfformio'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd arweinwyr yn glir nad oedd cyfraddau presenoldeb 'yn ddigon da' o hyd. I'w helpu i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, datblygodd arweinwyr feini prawf clir, gan gynnwys ffiniau presenoldeb ar gyfer nodi gwahanol anghenion cymorth wrth ddadansoddi presenoldeb disgyblion. Addaswyd y rhain trwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod disgwyliadau'n parhau'n uchel. Fel rhan o'r broses hon, nododd staff y math o ymyrraeth oedd ei hangen ar gyfer pob disgybl unigol a neilltuo gweithiwr achos ar eu cyfer.

Dadansoddodd arweinwyr ddata yn drylwyr i nodi tueddiadau mewn presenoldeb, gan gynnwys ystyried grwpiau, grwpiau blwyddyn ac unigolion yn rheolaidd. Roedd staff perthnasol yn gallu edrych ar ddata, ei fonitro'n agos ac ystyried effaith ymyriadau'n rheolaidd.

Roedd arweinwyr wedi datblygu arweiniad buddiol ar gyfer gweithwyr achos, a oedd yn darparu cyfarwyddiadau clir ar gyfer ymgysylltu â disgyblion a'u teuluoedd. Helpodd hyn i sicrhau dulliau cyson, ond helpodd hefyd i ddatblygu ymateb graddedig i ddelio â phresenoldeb gwael. Cymerodd staff ar bob lefel gyfrifoldeb am bresenoldeb disgyblion, a dadansoddodd arweinwyr bugeiliol ac uwch arweinwyr ddata presenoldeb yn drylwyr ac yn rheolaidd. O ganlyniad, roedd presenoldeb yr ysgol yn dechrau gwella, er bod arweinwyr yn cydnabod bod presenoldeb ar draws yr ysgol yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig.

### Diweddariad

Mae Ysgol Teilo Sant wedi cryfhau ei hymagwedd at wella presenoldeb yn dda dros y deuddeg mis diwethaf. Mae wedi parhau â'i hymagwedd strwythuredig a thrylwyr at fonitro presenoldeb disgyblion ac wedi gwerthuso'i strategaethau yn ofalus er mwyn datblygu a mireinio'i hymagweddau. Mae'r pennaeth yn parhau i rannu disgwyliadau uchel â phob aelod o gymuned yr ysgol ynghylch presenoldeb, ac er ei fod yn cydnabod y gwelliannau parhaus ym mhresenoldeb disgyblion, mae'n glir o hyd nad yw'r rhain "yn ddigon da".

Wrth i'r ysgol ddatblygu ei hymagwedd at gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae wedi ystyried yn ofalus sut gall rhai o'r ymagweddau hyn gefnogi presenoldeb, hefyd. O ganlyniad, mae wedi cyflwyno ymagwedd 'yn canolbwyntio ar yr unigolyn' at bresenoldeb, ac yn trin presenoldeb gwael fel 'angen dysgu' pwysig erbyn hyn. Pan fydd arweinwyr yn nodi pryder ynghylch presenoldeb disgyblion, maent yn cynnal cyfarfod 'Asesu Angen'. Mae'r cyfarfod hwn yn cynnwys y disgybl, ei rieni / gofalwyr a staff. Mae'n ceisio deall o safbwynt y disgybl pa agweddau y

mae arno angen cymorth â nhw i wella'i bresenoldeb i ddechrau, ac mae'r ysgol yn ymdrechu i gael gwared ar unrhyw rwystrau rhag presenoldeb rheolaidd.

Ar ôl y cyfarfod hwn, mae'r ysgol yn llunio cynllun cymorth clir a manwl y mae'n ei gytuno gyda'r disgyblion a'u teuluoedd, ac fe gaiff cynnydd yn erbyn hwn ei adolygu'n rheolaidd. Pan nad yw cymorth yn gweithio, mae'r ysgol i ymateb ac ymyrryd yn gyflym. Mae'r gwaith hwn wedi helpu'r ysgol i barhau i sicrhau gwelliannau mewn presenoldeb ac mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella o leiaf 1.1 pwynt canran bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, y gyfradd presenoldeb ysgol gyfan yw 89.9%, a dangosodd data cyhoeddedig fod cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn dda o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae arweinwyr wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod eu cwricwlwm yn diwallu anghenion disgyblion ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu cadarnhaol wedi iddynt ail-ymgysylltu â'r ysgol. Yn ychwanegol, mae eu hymagwedd deilwredig wedi eu helpu i nodi heriau pwysig sy'n wynebu teuluoedd. Mae gwaith elusen yr ysgol ei hun yn darparu cymorth ariannol a lles gwerthfawr. Mae hyn wedi helpu gwella presenoldeb disgyblion targedig yn nodedig.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella rhyw un pwynt canran ers y llynedd, ac mae ymagweddau targedig sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' wedi cefnogi hyn. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn glir fod presenoldeb y grŵp hwn o ddisgyblion yn achosi pryder iddynt o hyd, ac maent yn parhau i fireinio ac addasu eu hymagweddau i ymateb i hynny. Mae arweinwyr wedi ymrwymo i wella presenoldeb disgyblion ac yn gosod hyn yn flaenoriaeth drosfwaol gref ar gyfer gwella dysgu a deilliannau disgyblion.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30.7 | 87.7 | 82.9 | 88.8 | 83.8 | 1.1 | 0.9 | 2.1 |

Pan nad oedd ysgolion yn gwella presenoldeb yn ddigon cyflym:

- nid oedd arweinwyr yn blaenoriaethu gwella presenoldeb disgyblion yn ddigon da nac yn sicrhau bod pob un o'r staff yn gweld mai eu cyfrifoldeb nhw oedd hyn

- nid oedd arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o'r tueddiadau mewn presenoldeb oherwydd nad oeddent yn defnyddio nac yn dadansoddi data presenoldeb yn ddigon effeithiol
- nid oedd arweinwyr yn gwerthuso effaith eu strategaethau ac felly nid oedd ganddynt ddigon o ddealltwriaeth o ba rai sydd fwyaf effeithiol neu ddim yn cael unrhyw effaith
- nid oedd arweinwyr yn cynllunio nac yn addasu eu cwricwlwm yn ddigon da i gynorthwyo disgyblion i wella'u presenoldeb
- nid oedd arweinwyr yn ddigon rhagweithiol yn ymateb i arwyddion cynnar o bresenoldeb gwael, sy'n gallu achosi i ddisgyblion fod yn absennol yn barhaus o'r ysgol yn gyflym
- roedd arweinwyr yn rhoi disgyblion ar amserlenni rhan-amser nad oeddent yn cael eu cynllunio na'u hadolygu'n ddigon rheolaidd ac nid oeddent yn eu cynorthwyo i ddychwelyd i lefelau presenoldeb da
- roedd arweinwyr yn defnyddio gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy aml gyda disgyblion y mae eu presenoldeb eisoes yn wael, yn hytrach na mynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
- mewn ychydig iawn o achosion, roedd arweinwyr wedi cyflwyno wythnosau ysgol anghymesur a heb werthuso effaith hyn ar bresenoldeb disgyblion na'u hymgysylltiad â dysgu yn ddigon agos
- roedd arweinwyr yn defnyddio'r un dull ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn hytrach nag ystyried amgylchiadau unigol wrth ddatblygu strategaethau i wella presenoldeb
- roedd arweinwyr yn caniatáu i ddiwylliant ddatblygu sy'n rhy barod i oddef presenoldeb gwael
- nid oedd arweinwyr yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n cael eu trefnu mewn ffordd a oedd yn rhoi capasiti digonol i arweinwyr fynd i'r afael â materion presenoldeb, er enghraifft trwy roi cyfrifoldeb yn gyfan gwbl i benaethiaid blwyddyn yn hytrach na datblygu ymagwedd ar y cyd at sicrhau gwelliant

## Heriau / rhwystrau rhag gwella presenoldeb disgyblion uwchradd

### Amgyffrediad rhieni

At ei gilydd, nododd ysgolion fod dirywiad yn amgyffrediad rhieni o bwysigrwydd presenoldeb da ers y pandemig. Cydnabu arweinwyr ysgolion fod datblygu dysgu ar-lein yn ystod y pandemig wedi golygu bod rhieni / gofalwyr yn datgan mewn nifer o achosion y byddai'n well ganddynt i waith gael ei osod ar-lein a bod disgyblion ddim yn mynychu'r ysgol yn bersonol. Canfu astudiaeth ddiweddar:

> "mae newid seismig wedi bod yn agweddau rhieni at bresenoldeb ysgol".
> (Burtonshaw a Dorrell, 2023)

Yn ychwanegol, canfu'r astudiaeth hon fod 'methiant sylfaenol wedi bod yn y berthynas rhwng y system ysgolion a rhieni / gofalwyr ar draws y sbectrwm economaidd-gymdeithasol' (tud.12) a bod y rhieni / gofalwyr hynny o aelwydydd incwm isel yn mynegi 'drwgdybiaeth sylfaenol o ysgolion,' (tud.20). O ganlyniad i hyn, nid yw rhieni / gofalwyr yn teimlo mwyach fod 'pob diwrnod yn cyfrif' o ran presenoldeb (tud.12). Mae'n anodd iawn i ysgolion fynd i'r afael â'r amgyffrediad hwn, a byddai arweinwyr yn croesawu adnoddau a chymorth ychwanegol gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, roedd arweinwyr wedi ailsefydlu cysylltiadau effeithiol â chymuned eu hysgol ac wedi gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau am yr ysgol, meithrin perthnasoedd o'r newydd a hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol. Roedd gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn ddealltwriaeth gref o anghenion eu cymunedau ac roeddent yn rhoi popeth posibl ar waith i leihau unrhyw bethau sy'n rhwystro disgyblion rhag mynychu'r ysgol.

Roedd llawer o arweinwyr ysgolion wedi cydnabod bod gorbryderon rhieni / gofalwyr am eu plant yn mynychu'r ysgol wedi cynyddu ers y pandemig, mewn rhai achosion. O ganlyniad i hyn, mae mwy o rieni / gofalwyr yn cadw disgyblion gartref o'r ysgol pan fyddant yn dangos symptomau ysgafn iawn salwch, hyd yn oed.

**Cameo: Ysgol Coedcae – Ymgysylltu â theuluoedd i werthuso a gwella darpariaeth**

Roedd meithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol â theuluoedd wrth wraidd gwaith Ysgol Coedcae. Roedd staff yn ymroi'n helaeth i ddod i adnabod teuluoedd unigol ac wedi datblygu diwylliant cryf lle roedd rhieni / gofalwyr yn gadarnhaol ynghylch ymweld â'r ysgol.

Roedd gan arweinwyr ymagweddau cryf at werthuso a gwella, ac roedd hyn yn cynnwys dadansoddi data bob dydd i nodi unrhyw ddisgyblion y gallai fod angen cymorth targedig arnynt. Helpodd hyn yr ysgol i ymyrryd yn gynharach ac ymgysylltu â rhieni / gofalwyr mewn ffordd gynhyrchiol.

Roedd yr ysgol wedi cyflwyno ymweliadau strwythuredig â chartrefi, wedi'u cynnal gan aelod o staff a oedd wedi meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd penodol. Yn aml, roedd y gwaith targedig hwn yn arwain at fentora a chymorth unigol ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd.

Roedd arweinwyr yn adolygu eu cwricwlwm yn rheolaidd ac yn ystyried sut gallai

addasiadau arwain at helpu disgyblion i fynychu'n fwy rheolaidd. Ochr yn ochr â hyn, roedd arweinwyr yn canolbwyntio'n gryf ar wella addysgu i sicrhau eu bod yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu ar draws yr ysgol.

Hefyd, roedd yr ysgol wedi cyflwyno holiaduron presenoldeb lle roeddent yn gweithio gyda theuluoedd 'anodd eu cyrraedd' i nodi unrhyw rwystrau o ran diffyg presenoldeb. Roedd arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio'u hymagweddau a'u prosesau cynllunio gwelliant a meithrin ymgysylltiad teuluoedd â'r ysgol.

Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol wedi gwella'n raddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Diweddariad**

Mae arweinwyr yn Ysgol Coedcae wedi parhau i roi pwysigrwydd uchel ar wella presenoldeb disgyblion. Ar ôl gostyngiad bach ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim y llynedd, gwerthusodd arweinwyr eu hymagwedd a'u hadnoddau targedig i gryfhau arweinyddiaeth strategol yr agwedd hon ar eu gwaith. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu faint o amser y mae'r dirprwy bennaeth yn ei neilltuo i bresenoldeb, cyflwyno rheolaeth linell fwy rheolaidd o ran yr agwedd hon, a gwella atebolrwydd ar bob lefel. Mae hyn wedi helpu arweinwyr i gryfhau eu gwerthusiad, gwneud defnydd cryf o ddata a sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rôl mewn gwella presenoldeb.

Er y bu arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i fonitro'r agwedd hon ar eu gwaith, ar ôl ymweliad interim diweddar gan Estyn, mireiniodd arweinwyr eu hymagwedd trwy wneud cymariaethau mwy rheolaidd rhwng presenoldeb presennol, presenoldeb wythnosol a phresenoldeb misol o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys monitro grwpiau targedig o ddisgyblion ac ystyried pa strategaethau sy'n cael yr effaith gryfaf. Mae arweinwyr hefyd wedi sicrhau bod grwpiau allweddol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cael cymorth ychwanegol i helpu gwella'u presenoldeb.

I gefnogi disgyblion targedig, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol yn llogi bws mini dridiau'r wythnos ac yn casglu disgyblion targedig o gartref i sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi 21 o ddisgyblion ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt wedi gwella'u presenoldeb ers ymgysylltu â'r ddarpariaeth hon.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella i 86.8%, sydd 1.4 pwynt canran yn uwch na'r adeg hon y llynedd. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella 1.3 pwynt canran, ac mae presenoldeb merched, sydd wedi bod yn bryder parhaus i'r ysgol, wedi gwella gan ddau

bwynt canran.

**Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Coedcae**

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 35.1 | 85 | 80.5 | 85 | 79.5 | 0 | -1 | -0.5 |

## Hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol

Mae cyfleu pwysigrwydd presenoldeb da gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr yn agwedd bwysig ar wella presenoldeb, yn gyffredinol. Ers y pandemig, mae arweinwyr ysgolion o'r farn fod amgyffrediad rhieni, gofalwyr a disgyblion am bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd wedi gostwng. Er y bu llawer o ysgolion a rhai awdurdodau lleol yn gweithio ar hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol, nid oedd ffocws digon cryf wedi bod ar hyn ledled Cymru. Dywedodd llawer o arweinwyr ysgolion y byddent yn croesawu cymorth gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn genedlaethol. Byddai hyn hefyd yn helpu hyrwyddo'r angen i ddisgyblion fynychu'n rheolaidd.

**Cameo: Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf – cyfleu disgwyliadau uchel**

Creodd arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf ddiwylliant o ddisgwyliadau uchel o ran presenoldeb disgyblion. Roeddent yn cyfleu'r rhain yn rheolaidd ac yn eglur i rieni / gofalwyr ac roedd ganddynt ymateb graddedig clir i ymyrryd pan oedd presenoldeb disgyblion yn peri pryder iddynt. Roedd gan staff ar bob lefel gyfrifoldeb am fonitro presenoldeb a chyfleu disgwyliadau uchel gyda disgyblion a'u rhieni / gofalwyr.

Datblygodd arweinwyr ymgyrch i hyrwyddo'r angen i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys rhannu pwysigrwydd prydlondeb trwy "ymgyrch mae cyrraedd pob gwers 5 munud yn hwyr yn gyfystyr â cholli 30 munud o ddysgu bob dydd".

Roedd yr holl adroddiadau i rieni / gofalwyr yn cynnwys cyfraddau presenoldeb disgyblion ac roedd staff yn amlygu unrhyw bryderon yn rheolaidd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, roedd presenoldeb wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Diweddariad**

Mae arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf wedi parhau i osod disgwyliadau uchel i staff, disgyblion a rhieni o ran presenoldeb disgyblion. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan ffocws cryf ar fonitro presenoldeb a sicrhau bod arweinwyr

a staff ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigonol am yrru'r flaenoriaeth bwysig hon ymlaen.

Mae arweinwyr wedi parhau i gryfhau eu hymgyrchoedd i hyrwyddo presenoldeb da a gwella prydlondeb, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol. Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad clir sy'n cael ei ddeall yn dda gan staff a'r gymuned. Mae cyfathrebu rheolaidd a chlir â rhieni yn amlinellu ei ddisgwyliadau uchel wedi cyfrannu at welliannau nodedig ym mhresenoldeb pob grŵp o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys gosod disgwyliadau presenoldeb gofynnol ar gyfer pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth.

Defnyddir cyfarfodydd y tîm arweinyddiaeth yn ofalus i fonitro presenoldeb disgyblion a nodi presenoldeb unrhyw ddisgyblion sy'n peri pryder. Mae camau a llinellau atebolrwydd clir yn sicrhau bod camau cyflym yn cael eu cymryd a bod effaith unrhyw ymyrraeth yn cael ei gwerthuso'n drylwyr.

Mae arweinwyr wedi nodi adegau allweddol o'r flwyddyn pan fydd cynnal presenoldeb da yn hynod heriol, ac wedi datblygu gweithgareddau i helpu annog pob un o'r disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Er enghraifft, cyflwynodd yr ysgol ymgyrch '12 diwrnod y Nadolig' lle roedd pob disgybl a oedd yn mynychu'r ysgol am bob un o'r 12 diwrnod yn arwain at wyliau'r Nadolig yn cael tocyn aur. Roedd y tocyn hwn yn golygu eu bod yn cystadlu mewn raffl i ennill taleb.

Mae'r ffocws cryf ar fonitro a hyrwyddo presenoldeb wedi cael effaith gref ac mae'r ysgol wedi parhau i weld gwelliannau. Mae cyfraddau presenoldeb presennol (95.6%) yn symud yn agosach tuag at lefelau cyn y pandemig ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n dda. O ystyried data presenoldeb ar gyfer 2023-2024, cyfradd gyffredinol presenoldeb yr ysgol oedd 93.8%.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10.3 | 93.4 | 88.5 | 93.8 | 90.2 | 0.4 | 1.7 | 3.6 |

### Ysgol Gyfun Pontarddulais – Cynorthwyo disgyblion i fod eisiau mynychu'r ysgol

Bu staff yn gweithio'n rhagweithiol gyda chymuned yr ysgol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion a'u teuluoedd yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol bob dydd, yn ogystal â bod yn barod i ddysgu. Sicrhaodd arweinwyr fod eu harlwy cwricwlwm ac ansawdd yr addysgu yn ysbrydoli disgyblion i ymgysylltu â'r ysgol a bod profiadau dysgu yn eu symbylu fel nad ydynt eisiau 'colli' unrhyw amser yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb yn drylwyr ac yn defnyddio ystod helaeth o ymyriadau buddiol i gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb isel i wella. Ceir tîm cryf o staff cymorth sy'n gweithio gyda theuluoedd i annog ymgysylltu. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, disgynnodd cyfradd presenoldeb yr ysgol o swm cryn dipyn yn llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd yn sylweddol uwch na'r gyfradd mewn ysgolion tebyg, er ei fod yn parhau i fod ychydig islaw lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

#### Diweddariad

Mae arweinwyr wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i wella presenoldeb, gan gynnal ffocws cryf ar gyfleu disgwyliadau uchel. Y cyfraddau presenoldeb presennol yw 93%.

Mae ymagwedd y Tîm o Amgylch y Plentyn yn chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi a gwella presenoldeb disgyblion. Mae'r tîm amlddisgyblaethol hwn yn cynnwys y Swyddog Cymorth Bugeiliol, y Swyddog Presenoldeb, penaethiaid blwyddyn, arweinwyr diogelu a Chydlynydd Gofal, Cymorth ac Arweiniad yr ysgol. Trwy gyfarfodydd rheolaidd a chynllunio cydweithredol, mae'r Tîm o Amgylch y Plentyn yn nodi disgyblion sydd â phryderon presenoldeb yn dod i'r amlwg neu rai parhaus yn gyflym. Wedyn, maent yn darparu cymorth uniongyrchol a theilwredig, gan gynnwys mentora targedig, ymgysylltu â rhieni, ac ymweliadau â chartrefi, lle mae angen.

Mae'r Tîm o Amgylch y Plentyn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i gael gwared â rhwystrau rhag presenoldeb, tra bod arweinwyr diogelu yn sicrhau yr eir i'r afael yn brydlon ag unrhyw faterion lles neu amddiffyn sylfaenol. Mae'r ymagwedd gydlynus yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, gan helpu gwella presenoldeb ac ymgysylltiad cyffredinol ym mywyd yr ysgol. Mae'r ymagwedd hon wedi helpu'r ysgol i sicrhau cyfraddau presenoldeb gwell ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfraddau presenoldeb 2023-24 ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion (90.1%), yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru, sef 79.9%.

## Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gyfun Pontarddulais

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16.5 | 92.6 | 87.8 | 93 | 90.1 | 0.4 | 2.3 | 3.9 |

### Cameo: Ysgol Gatholig Rufeinig Sant Alban – hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol

Roedd arweinwyr a staff yn cyfleu pwysigrwydd presenoldeb da i ddisgyblion a'u teuluoedd yn rheolaidd. Dechreuodd hyn fel rhan o brosesau pontio'r ysgol, pan oeddent yn cyfarfod â rhieni a gofalwyr Blwyddyn 6. Darparodd yr ysgol fanylion am bresenoldeb pob disgybl unigol a chreu cysylltiadau perthnasol â'i ddysgu, er enghraifft gan amlygu beth yw effaith cyfradd presenoldeb 90% ar gynnydd disgyblion. Roedd yr ysgol yn gadarn yn ei chred fod datblygu perthynas gadarnhaol a chefnogol gyda theuluoedd yn allweddol i wella presenoldeb.

Roedd gan yr ysgol systemau cadarn i sicrhau ei bod yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif â'r holl rieni / gofalwyr o'r diwrnod cyntaf yn yr ysgol. Roedd hyn yn cynnwys neges e-bost o groeso gan diwtor dosbarth y disgybl, galwadau ffôn gan y Swyddog Lles ac Ymgysylltu i gynorthwyo rhieni / gofalwyr lle roedd presenoldeb disgyblion yn dechrau peri pryder, ac ymweliadau rheolaidd â chartrefi gan y tîm lles.

Roedd ffocws cryf ar wella presenoldeb ar bob lefel. Datblygwyd llinellau cyfathrebu clir i sicrhau bod tiwtoriaid dosbarth, penaethiaid blwyddyn, uwch arweinwyr, y tîm ymgysylltu lles a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o ddata presenoldeb mewn gwella presenoldeb disgyblion. Cafodd penaethiaid blwyddyn gyfarfodydd wythnosol i werthuso effaith gwaith targedig, a defnyddiwyd cyfarfodydd â rheolwyr llinell i fonitro cynnydd a gwerthuso a diwygio strategaethau lle roedd angen.

#### Diweddariad

Mae'r ysgol wedi cynnal ei ffocws cryf ar wella presenoldeb ac wedi gweld gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn ers y pandemig. Cyfradd presenoldeb yr ysgol gyfan ar hyn o bryd yw 93.6%. Mae olrhain data yn drylwyr ac ymyriadau cynnar wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer disgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder, wedi cefnogi'r gwelliannau hyn.

Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu cyngor rhieni sy'n canolbwyntio ar leihau gofidiau disgyblion am ddechrau'r ysgol ym Mlwyddyn 7, ac wedi parhau i gryfhau eu trefniadau

pontio ochr yn ochr ag ymgysylltiad rhieni. Mae'r gwaith hwn wedi helpu'r ysgol i sefydlu gwasanaeth ymgysylltu â'r gymuned, cymorth gan seicolegwyr, i ymgysylltu â theuluoedd cyn i ddisgyblion ddechrau ym Mlwyddyn 7. Helpodd y gwasanaeth hwn i leihau pryderon disgyblion ac mae wedi cefnogi gwelliannau cryf mewn presenoldeb ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gatholig Rufeinig Sant Alban

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14.5 | 92.3 | 86.3 | 93 | 88.6 | 0.7 | 2.3 | 3.5 |

### Cameo Ysgol Rhydywaun – Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

Mae gwaith yr ysgol i hybu a gwella presenoldeb yn gryfder sylweddol. Mae sawl strategaeth ar waith i sicrhau cynnydd yn y presenoldeb. Mae'r ysgol yn:

- monitro a thracio presenoldeb yn ofalus a mireinio systemau yn gyson
- cydweithio'n agos â swyddogion yr awdurdod lleol
- ymweld â chartrefi i gefnogi disgyblion a theuluoedd
- sefydlu grwpiau ffocws penodol
- trefnu nosweithiau rhannu gwybodaeth defnyddiol i rieni
- cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo presenoldeb ysgol gyfan
- sicrhau bod y cwricwlwm yn ysgogol ac yn addas i anghenion unigolion
- darparu ymyraethau pwrpasol i unigolion
- blaenoriaethu darparu addysg o ansawdd uchel

Mae arweinwyr yn adnabod tueddiadau yn gynnar ac yn cefnogi disgyblion â phresenoldeb isel yn gyson. Mae'r ysgol yn gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd ei gwaith i wella presenoldeb disgyblion, ac yn ei addasu, yn ôl yr angen. Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn wedi arwain at welliannau sylweddol.

O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn uwch na'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg. Rhwng y blynyddoedd academaidd 2018-19 a 2022-23, roedd y gostyngiad yng nghyfradd presenoldeb yr ysgol yn llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd presenoldeb ychydig yn well nag ysgolion tebyg a'r cynnydd mewn blwyddyn yn sylweddol uwch na'r cynnydd yn genedlaethol. Mae'r cyfraddau absenoldebau parhaus yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Teithio

Un o'r heriau pwysig a nodwyd gan bron pob un o'r arweinwyr ysgolion y cyfarfuom â nhw fel rhan o'r adroddiad thematig hwn oedd cost cludiant cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny o aelwydydd incwm isel. Yn ôl arweinwyr ysgolion, roedd y ffaith fod cludiant am ddim yn cael ei ddarparu o'r tu allan i'r terfyn tair milltir yn unig yn rheswm cyffredin pam nad oedd disgyblion, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm isel, yn mynychu'r ysgol. Er bod tair milltir yn bellter yr ystyrir bod modd ei gerdded, nododd llawer o arweinwyr ysgolion y byddai hyn yn cymryd mwy na 45 munud bob ffordd i ddisgyblion. Yn ystod misoedd y gaeaf, mae hyn yn heriol iawn. Mae cost taith ddychwelyd yn aml y tu hwnt i incwm teuluoedd y mae eu plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dywedodd mwyafrif y penaethiaid fod disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi, yn llai tebygol o fynychu'r ysgol yn ystod cyfnodau o law neu stormydd cynyddol oherwydd nad oedd rhieni / gofalwyr eisiau iddynt gerdded am gyfnodau hir mewn tywydd gwael.

Er nad oes gan rieni neu ofalwyr opsiwn i dalu am gludiant cyhoeddus mewn rhai achosion, caiff hyn effaith nodedig ar gost y diwrnod ysgol. Er bod ysgolion yn gwneud yr hyn y gallent i leihau cost y diwrnod ysgol, roedd arweinwyr o'r farn nad yw disgyblion o aelwydydd incwm isel yn tueddu i fynychu cystal, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Parhaodd cyfraddau presenoldeb yn is ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac roedd arweinwyr ysgolion o'r farn fod yr agwedd hon yn gwneud cyfraniad nodedig.

**Cameo: Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed – Dileu rhwystrau rhag presenoldeb**

Roedd staff yn Ysgol Cefn Hengoed wedi gweithio'n agos gyda'u cynghorwyr cymuned a gwasanaeth bws lleol i gyflwyno gwasanaeth bws ar gyfer disgyblion o fewn radiws tair milltir am lai o gost.

Nododd yr ysgol fod her arbennig i ddisgyblion o fewn y radiws tair milltir hwn wrth fynychu'r ysgol yn ystod tywydd gwael ac ar foreau neu nosweithiau tywyll. Cost gyfartalog taith ddwy ffordd safonol ar fws fyddai £4. Roedd hyn yn gryn dipyn o gost, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yr ysgol a chwmni bysiau lleol wedi gweithio i gynnig bws yn costio £1 bob ffordd. Roedd hyn wedi helpu i leihau cost y diwrnod ysgol ar gyfer y disgyblion hyn a'u teuluoedd.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, roedd yr ysgol wedi cyflwyno ymagwedd glir ar osgoi'r ysgol ar sail emosiynol i dargedu a chynorthwyo'i dysgwyr mwyaf bregus. Cyflwynodd ymagwedd fuddiol at fentora a hunanfyfyrio i helpu disgyblion i ystyried pwysigrwydd

mynychu'n rheolaidd. Cynorthwyodd 'pecyn presenoldeb' yr ysgol y disgyblion i weithio gydag aelod o staff y gallent ymddiried ynddo i hunanfyfyrio a deall pam nad ydynt yn mynychu.

Roedd y gwaith hwn wedi helpu gwella presenoldeb yn dda dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

### Diweddariad

Mae'r ysgol yn parhau i fabwysiadu ymagwedd gynhwysfawr ac ymatebol at wella presenoldeb, wedi'i hategu gan ethos cryf o ofal, cydweithio ac atebolrwydd. Mae ei strategaeth 'gyffredinol iawn' yn sicrhau bod mesurau cyffredinol o fudd i bob un o'r disgyblion, tra bod cymorth pwrpasol yn cael ei dargedu'n effeithiol at grwpiau penodol. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac mae swyddogion cymorth bugeiliol a gefnogir gan Reolwr Lles, sy'n dod o'r gymuned leol, yn chwarae rôl ganolog mewn nodi materion yn gynnar a meithrin ymddiriedaeth â theuluoedd.

Mae system sefydledig o gyfarfodydd bugeiliol, ymweliadau rheolaidd â chartrefi, a gweithio'n agos gyda'r Swyddog Lles Addysg yn sicrhau yr eir i'r afael yn gyflym â phryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae arweinwyr yn defnyddio data yn ddeallus i olrhain tueddiadau ac ymateb iddynt, gwerthuso effaith a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio amser cyfeiriedig i ganolbwyntio ar grwpiau o ddisgyblion. Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod bob pythefnos i drafod disgyblion nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd ac yn defnyddio cymorth yn seiliedig ar angen unigol.

Mae defnydd arloesol o anogwyr dysgu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, wedi helpu ailymgysylltu â dysgwyr bregus a chefnogi parhad academaidd. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY a'r rhai sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol yn gryfder nodedig ac wedi cefnogi'r ysgol i leihau rhwystrau i'r disgyblion hyn rhag mynychu'r ysgol.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33.8 | 89 | 85.3 | 90.2 | 86.8 | 1.2 | 1.5 | 4.8 |

## Cyllid

Roedd llawer o arweinwyr ysgolion yn pryderu bod y pwysau presennol ar gyllidebau yn ei gwneud yn anos blaenoriaethu adnoddau i gefnogi gwelliannau mewn presenoldeb. Er eu

bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn, byddent yn croesawu pe bai cyfran o hyn yn cael ei chlustnodi i gefnogi staffio mewn ysgolion. Mae'r strategaethau presenoldeb mwyaf effeithiol yn gostus, ar y cyfan, gan eu bod yn golygu bod staff yn gweithio gyda disgyblion unigol a'u teuluoedd.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr wedi blaenoriaethu adnoddau trwy benodi swyddogion ymgysylltu sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd. Fodd bynnag, gan fod pwysau cyllidebol ar hyn o bryd, roedd ysgolion yn pryderu'n gynyddol am gynaliadwyedd y trefniadau hyn, er eu bod yn cael effaith gadarnhaol.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid targedig ar gyfer yr agwedd hon ar waith ysgolion yn cael ei ddyrannu trwy gyllid grant. Roedd arweinwyr ysgolion yn ei chael yn gynyddol anodd cynllunio'n strategol neu'n gynaliadwy ar gyfer eu gwaith i wella presenoldeb gan fod cyllid am un flwyddyn ariannol ar y tro. Yn ychwanegol, dywed arweinwyr eu bod wedi derbyn cyllid yn hwyr yn y flwyddyn gydag ychydig o fisoedd yn unig i'w ddyrannu a'i wario. Yn aml, mae hyn yn golygu y bu'n rhaid iddynt fod yn adweithiol yn hytrach na chynllunio ar gyfer effaith hirdymor. Roedd hefyd yn ei gwneud yn anodd i ysgolion recriwtio staff addas, yn enwedig lle roedd y farchnad gyflogaeth yn gystadleuol, gan fod y rhain yn aml yn rolau dros dro. Byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid wedi'i glustnodi dros gyfnod amser hirach er mwyn i ysgolion allu cynyddu eu capasiti i ymateb i'r tirlun mwy heriol ar ôl y pandemig.

### Gweithio mewn clystyrau

Dim ond mewn ychydig o achosion yr oedd ysgolion uwchradd wedi gweithio'n effeithiol gydag ysgol gynradd eu clwstwr i wella presenoldeb yn benodol. Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion wedi cydweithio i nodi sut gallant roi cymorth ar y cyd i deuluoedd lle roedd presenoldeb brodyr a chwiorydd o ysgolion cynradd ac uwchradd yn wael. Roedd hyn wedi helpu lleihau dyblygu gwaith a chynyddu'r capasiti i gefnogi a herio presenoldeb gwael. Fodd bynnag, roedd yn ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu llawer o'r gwaith hwn.

**Cameo: Esgob Vaughan**

Yn ddiweddar, roedd clwstwr Esgob Vaughan wedi cyflogi aelod o staff i weithio ar draws y clwstwr i ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion â phresenoldeb isel. Roedd hyn yn helpu osgoi dyblygu gwaith lle mae angen cymorth ar fwy nag un disgybl o'r un teulu. Er bod arwyddion o wella presenoldeb, roedd yn rhy gynnar i fesur effaith y dull hwn yn llawn.

**Diweddariad**

Mae Ysgol Esgob Vaughan wedi parhau i ganolbwyntio ar wella presenoldeb ac wedi integreiddio hyn yn dda ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae'n gwerthuso effaith y

ddarpariaeth yn ofalus ac wedi addasu a newid strategaethau wrth ymateb i hyn.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi defnyddio'i swyddog ymgysylltu â theuluoedd ei hun sy'n gweithio'n agos gyda theuluoedd targedig. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â disgyblion yn ystod y cyfnod pontio ac o Flwyddyn 7 i sicrhau eu bod yn meithrin disgwyliadau clir mor gynnar â phosibl. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi targedu'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o fod yn ddisgyblion sy'n absennol yn barhaus.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei ffocws ar wella presenoldeb bechgyn. I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r ysgol wedi datblygu modelau rôl i weithio gydag unigolion targedig. Cymerir y modelau rôl hyn o blith staff a datblygu llysgenhadon ieuenctid, sef disgyblion sydd â phresenoldeb cryf neu rai sydd wedi gwella'u presenoldeb.

Mae'r gwaith hwn wedi helpu gwella presenoldeb disgyblion targedig.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella eleni, ac yn 89.1% ar hyn o bryd, sef 0.3 pwynt canran yn uwch na'r adeg hon y llynedd. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd wedi gwella i 81.5%.

**Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gatholig Esgob Vaughan**

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25.4 | 88.7 | 81.6 | 88.5 | 79.7 | -0.2 | -1.9 | 1.1 |

## Gwyliau ysgol

Nododd ysgolion fod gorffen yn hwyr ar gyfer y Nadolig a thymor hir yr hydref yn benodol yn aml yn golygu bod disgyblion yn colli mwy o ysgol, yn enwedig yn yr wythnosau ychydig cyn gwyliau'r Nadolig. Nododd arweinwyr ysgolion fod dirywiad cynyddol ym mhresenoldeb disgyblion pan oedd tymhorau'n hirach na'r arfer a gwyliau'n hwyrach. Yn ychwanegol, roedd lefelau presenoldeb ym misoedd y gaeaf yn dod yn gynyddol heriol, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny o aelwydydd incwm isel. Roedd arweinwyr ysgolion yn ceisio sicrhau bod yr wythnosau hyn ar ddiwedd y tymor yn bwrpasol a difyr fel bod disgyblion yn cael eu hannog i fynychu. Fodd bynnag, crybwyllodd rhieni / gofalwyr yn aml nad oeddent eisiau i'w plant fod yn sâl yn ystod gwyliau ysgol, felly roeddent yn eu cadw gartref yn union ar ddiwedd y tymor.

Yn ychwanegol, nododd arweinwyr ysgolion fod cyfraddau presenoldeb yn isel, ar y cyfan, pan mae dechrau neu ddiwedd tymor yn wythnos fer o ddiwrnod neu ddau.

# Ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar allu ysgolion i wella presenoldeb disgyblion

## Capasiti

Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, roedd ysgolion wedi cynyddu eu gallu i ymateb a gwella presenoldeb disgyblion. Roedd strwythurau staffio ac arweinyddiaeth wedi cael eu haddasu i alluogi nifer gymesur o staff i fonitro, cefnogi a herio presenoldeb gwael. Nododd ysgolion fod nifer y disgyblion yr oedd angen iddynt eu cynorthwyo wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bod hyn yn ei gwneud yn anodd ymateb yn effeithiol ac mewn modd amserol. Pan roedd strategaethau'n cael yr effaith fwyaf, yn gyffredinol, roedd gan ysgolion staff dynodedig heb unrhyw ymrwymiadau addysgu fel bod ganddynt ddigon o amser i fonitro ac ymyrryd â phresenoldeb disgyblion.

Pan roedd ysgolion yn cael effaith gadarnhaol, roedd staff ar bob lefel yn cymryd cyfrifoldeb am wella presenoldeb. Gall swyddog ymgysylltu neu swyddog presenoldeb a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol ychwanegu capasiti pwysig at ddelio â'r achosion mwyaf heriol. Mewn rhai ysgolion uwchradd, roedd arweinwyr wedi cyflwyno swyddogion lles i gynorthwyo arweinwyr bugeiliol i nodi tueddiadau ac ymateb i bresenoldeb gwael. Roedd hyn wedi helpu'r ysgolion hyn i ymateb ac ymyrryd yn gynnar i wella presenoldeb disgyblion.

## Gwerthuso presenoldeb a defnyddio data

Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn dadansoddi cyfraddau presenoldeb unigolion, grwpiau o ddisgyblion, grwpiau blwyddyn a'r ysgol gyfan yn drylwyr ac yn rheolaidd. Roeddent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn drylwyr i dargedu, herio a chynorthwyo'r disgyblion hynny yr oedd eu presenoldeb yn dirywio neu'n wael. Roedd uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn effeithiol, ac roedd yr ysgolion hyn yn defnyddio'u gwerthusiadau i gefnogi'r cynllunio strategol ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, roedd ansawdd y gwerthuso a'r gwella yn gysylltiedig â phresenoldeb yn rhy amrywiol o lawer ledled Cymru. Yn aml, nid oedd arweinwyr yn gwneud defnydd digon effeithiol o ddata a gwybodaeth ac nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o'r strategaethau oedd yn cael yr effaith leiaf a'r effaith fwyaf. At ei gilydd, nid oedd y cymorth i wella ymagweddau at werthuso yn cael digon o effaith.

## Llais y disgybl

Roedd ysgolion yn gwneud defnydd cynyddol o lais y disgybl i gynnwys disgyblion yn llawn mewn datblygu strategaethau a nodi'r mathau o gymorth a allai helpu gwella

presenoldeb. Fodd bynnag, roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn rhy aml gyda disgyblion yn yr ysgol, ac felly, nid oedd arweinwyr bob amser yn casglu adborth gan ddisgyblion â'r presenoldeb gwannaf. Roedd ychydig o ysgolion yn dechrau datblygu dulliau i ymgysylltu â disgyblion â chyfraddau presenoldeb is, ond megis dechrau datblygu oedd y gwaith hwn, ar y cyfan.

Yn ychwanegol, nid oedd y wybodaeth a gasglwyd gan ddisgyblion yn cael ei defnyddio'n ddigon da gan rai ysgolion i gynllunio ar gyfer gwelliannau.

**Cameo: Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd – cynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol**

Roedd gan arweinwyr brosesau clir ar gyfer nodi a thargedu disgyblion â phresenoldeb isel. Ar ôl casglu barn disgyblion am sut orau y gellid eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r ysgol, cyflwynodd arweinwyr ymagwedd fuddiol at gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb gwael i ailintegreiddio ym mywyd yr ysgol.

Cafodd disgyblion â phresenoldeb isel eu hailgyflwyno i'r ysgol trwy 'Canolfan Llannerch' (darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion bregus) am gyfnod amser byr, cyn eu hailgyflwyno i wersi prif ffrwd. Datblygodd staff ddealltwriaeth fanwl o anghenion unigol disgyblion a darparu ymyriadau lles cychwynnol cyn ailgyflwyno cynnwys y cwricwlwm yn araf. Helpodd hyn y disgyblion i adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bynciau yn raddol er mwyn iddynt deimlo'n fwy hyderus wrth ymgysylltu â bywyd ysgol.

Roedd staff yn y ddarpariaeth hon yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac roedd systemau data'r ysgol yn cefnogi hyn yn dda. Roedd pob un o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd yr oedd disgyblion wedi'i wneud wrth iddynt ddychwelyd i wersi prif ffrwd. Roedd hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff am gynnydd disgyblion ac yn lleihau lefelau gorbryder i ddisgyblion wrth iddynt ddychwelyd i wersi. Roedd hyn wedi helpu nifer o ddisgyblion i ymgysylltu â'r ysgol o'r newydd yn dda, ac roedd cyfraddau presenoldeb yn Ysgol Llangynwyd wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

### Diweddariad

Mae arweinwyr wedi sicrhau 'ymagwedd tîm' gref at wella presenoldeb. Mae arweinwyr ar bob lefel a staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau am gefnogi gwelliannau yn yr agwedd bwysig hon. Mae gwaith yr ysgol wedi cael ei gefnogi gan siart llif glir a buddiol o ymyriadau. Mae'r siart llif hon yn gwneud yr ymagwedd at gefnogi disgyblion a'u teuluoedd yn glir ac wedi helpu'r ysgol i sicrhau ymateb cyson i unrhyw bryderon.

Un o gryfderau penodol ymagwedd tîm yr ysgol yw'r ffordd y mae Swyddog Lles Addysg

y clwstwr yn gweithio gyda'r ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd y clwstwr i ddarparu cymorth cyson ar gyfer disgyblion a theuluoedd, gan helpu sicrhau cyfnod pontio esmwyth rhwng cyfnodau allweddol. Mae'r Swyddog Lles Addysg yn nodi ac yn mynd i'r afael â materion presenoldeb yn gynnar, yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd, ac yn darparu ymyriadau teilwredig sy'n dilyn disgyblion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r parhad hwn yn gwella ymgysylltu, yn hyrwyddo lles, ac yn cefnogi cynnydd gwell trwy leihau rhwystrau rhag dysgu.

**Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16.1 | 90.4 | 83.4 | 91.1 | 84.5 | 0.7 | 1.1 | 2.3 |

## Hysbysiadau cosb benodedig

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae ysgolion, wedi'u cefnogi gan awdurdodau lleol, wedi dechrau gwneud defnydd mwy amserol a thargedig o hysbysiadau rhybudd a hysbysiadau cosb benodedig. Crybwyllodd arweinwyr ysgolion fod hysbysiadau rhybudd wedi cael effaith gadarnhaol mewn ychydig o achosion i wella presenoldeb, er mai dewis olaf yw hyn. Fodd bynnag, i ddisgyblion a oedd yn absennol yn barhaus, nid oedd y rhain bob amser yn ysgogi'r gwelliannau dymunol yn ddigon cyflym.

## Cameos ychwanegol o arfer effeithiol a nodwyd yn ystod yr ymgysylltiad diweddaredig ag ysgolion

### Cameo Ysgol Uwchradd Cathays - "Mae Pob Munud yn Cyfri"

Yn Ysgol Uwchradd Cathays, mae arweinwyr wedi datblygu neges gyson o fewn y gymuned fod "pob munud yn cyfri" i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb yn rhan o ddiwylliant yr ysgol. Mae arweinwyr wedi datblygu sgyrsiau wedi'u sgriptio, yn rhan o'u hymdrech ar "gysondeb clywadwy", i drafod presenoldeb a phrydlondeb gyda disgyblion. Mae hyn yn helpu arweinwyr i sicrhau bod cyfathrebu'n cyd-fynd â'u neges glir i ddisgyblion am bwysigrwydd bod yn yr ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae'r sgript yn tynnu sylw at y dysgu penodol a gollir pan fyddant yn absennol o'r ysgol, neu'n cyrraedd yn hwyr. Caiff y negeseuon hyn eu rhannu'n effeithiol gyda rhieni, hefyd.

Mae'r ysgol wedi cychwyn gwobrau rheolaidd a dathliadau o bresenoldeb cryf ac sy'n gwella, sy'n cyd-fynd ag ethos "mae pob munud yn cyfri". Mae hyn yn cynnwys dathliadau clwb 100% wythnosol mewn tiwtorialau, tystysgrifau bob hanner tymor a

bathodynnau mewn gwasanaethau gwobrau a phrofiadau gwobrwyo bob tymor. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar funudau a gollwyd trwy fod yn hwyr bob wythnos.

## Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Uwchradd Cathays

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 41.4 | 88 | 85 | 89.6 | 86 | 1.6 | 1 | 5.3 |

### Cameo Ysgol Gyfun Y Pant – Integreiddio gwella presenoldeb i bob agwedd ar waith yr ysgol

Ers dychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig, mae arweinwyr yn Ysgol Gyfun Y Pant wedi cynnal ffocws cryf ar wella presenoldeb disgyblion. Mae hyn wedi cynnwys cynyddu eu disgwyliadau o ddisgyblion a'u rheini yn raddol dros gyfnod a bod yn glir gyda chymuned yr ysgol gyfan am y pwysigrwydd y maent yn ei roi ar bresenoldeb ac ymgysylltiad rheolaidd yn yr ysgol.

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r ysgol wedi gweithio'n strategol i sicrhau bod ei hymagweddau at wella presenoldeb yn gynaliadwy yn rhan o'i hymatebion 'bob dydd' i wella dysgu, lles a deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae cynnal ffocws dygn ar wella ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm wedi bod yn allweddol i'r ymagwedd hon fel bod disgyblion yn cael profiadau dysgu cryf a difyr pan fyddant yn mynychu'n rheolaidd.

Mae arweinwyr yn Y Pant wedi defnyddio ymagwedd 'tridaint' glir at wella presenoldeb. Yn gyntaf, maent wedi canolbwyntio ar sicrhau amgylchedd diogel lle mae disgyblion yn hapus i ddod i'r ysgol. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan 'gwricwlwm ymddygiad' yr ysgol sy'n helpu addysgu disgyblion am barch, agweddau cadarnhaol a'u helpu i ddelio ag amgylchiadau heriol. Yn ail, maent wedi cyfleu disgwyliadau clir ac uchel i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff, ac yn olaf, maent wedi sicrhau eu bod yn cynnig profiadau dysgu cryf ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion disgyblion unigol.

Mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o'u rôl mewn gwella presenoldeb ac mae arweinwyr yn monitro a gwerthuso effaith eu gwaith yn rheolaidd, gan eu helpu i fireinio a gwella'u hymagwedd yn dda. Mae hyn wedi cynorthwyo arweinwyr i sicrhau gwelliannau mewn presenoldeb.

Mae'r ysgol, fel ysgolion eraill ledled Cymru, wedi nodi cynnydd mewn disgyblion sy'n wynebu heriau â'u hiechyd meddwl. O ganlyniad, maent wedi datblygu eu cwricwlwm 'iechyd a lles' sy'n helpu disgyblion i ddysgu am y gwahaniaeth rhwng straen, gorbryder a theimlo'n nerfus, ac yn darparu strategaethau buddiol ar eu cyfer i'w cynorthwyo pan

fyddant yn wynebu sefyllfaoedd heriol. Mae hyn wedi helpu gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gyfun Y Pant

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi’u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10.8 | 91 | 82.3 | 91.8 | 85.6 | 1.6 | 3.3 | 1.6 |

### Cameo Ysgol Gyfun Gymraeg Maes Y Gwendraeth – Cefnogi disgyblion yn y cyfnod cynharaf

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i wella presenoldeb. Mae eu dadansoddiad effeithiol o ddata yn eu helpu i dargedu ac adnabod cefnogaeth ar gyfer disgyblion a grwpiau o ddisgyblion wedi'u targedu. Nododd arweinwyr bryder ynghylch presenoldeb disgyblion ar ddechrau Blwyddyn 7. O ganlyniad i'w gwaith wedi'u ffocysu yn y maes hwn, mae presenoldeb y disgyblion hyn wedi gwella o 92.1% yn 2022-2023 i 93.3%.

I gefnogi'r gwaith hyn, mireiniodd arweinwyr eu trefniadau ymsefydlu Blwyddyn 7. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad yn ystod noson ymsefydlu Blwyddyn 6 i rieni a disgyblion ar bwysigrwydd presenoldeb da. Mae staff perthnasol yn cynnal cyfarfodydd croeso gyda disgyblion Blwyddyn 7 pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol i sicrhau eu bod yn dod i adnabod y disgyblion fel unigolion, eu hoff a'u cas bethau i deilwra cefnogaeth a nodi'r ffordd orau o'u cynnwys ym mywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnal cyswllt rheolaidd â theuluoedd, yn enwedig i'r rhai sydd â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, i ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra ac effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan bob disgybl, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, fynediad at ystod o weithgareddau allgyrsiol pan fyddant yn dechrau ym Mlwyddyn 7 i'w helpu i ymgysylltu a mwynhau bywyd yn eu hysgol newydd.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Gyfun Gymraeg Maes Y Gwendraeth

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi’u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12.3 | 88.1 | 77.8 | 89.1 | 80.5 | 1 | 2.7 | -0.7 |

## Cameo Ysgol Uwchradd Willows – Cyfleu pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd

Bu gwelliannau yng nghyfraddau presenoldeb Ysgol Uwchradd Willows dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'w chymorth targedig ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd.

Mae arweinwyr presenoldeb yn monitro presenoldeb yn agos ac wedi gweithio'n rhagweithiol gyda staff i sicrhau bod cofrestrau'n gywir a chyfoes, a hefyd, bod eu cysylltiad cyntaf â'r cartref pan na fydd disgyblion yn mynychu yn brydlon ac ystyrlon. Maent wedi defnyddio data yn briodol i nodi patrymau mewn presenoldeb ac wedi addasu eu hymagwedd wrth ymateb i hynny. Enghraifft o hyn yw anfon 'negeseuon testun gwthio' bob dydd Iau i atgoffa disgyblion a'u teuluoedd am yr angen i fynychu'r ysgol ar ddydd Gwener, gan fod hwn yn ddiwrnod a oedd yn achosi pryder i'r ysgol. Mae hyn wedi helpu gwella presenoldeb ar y diwrnod hwn o'r wythnos.

Yn rhan o'u datblygiad cwricwlaidd, cyflwynodd yr ysgol brynhawn cyfoethogi a gynhelir bob yn ail ddydd Mercher. Mae hyn wedi helpu ehangu profiadau disgyblion ac wedi cefnogi gwelliannau buddiol mewn presenoldeb ar y diwrnod hwn hefyd. Mae arweinwyr yn adolygu'r ddarpariaeth hon yn rheolaidd ac yn ei mireinio er mwyn sicrhau'r profiad gorau i'w disgyblion.

Er ei bod yn rhy gynnar i fesur yr effaith, mae'r ysgol wedi cyflwyno llysgenhadon presenoldeb disgyblion yn ddiweddar. Bydd y disgyblion hyn yn cynorthwyo'r ysgol i arwain gwelliannau mewn presenoldeb, gan gynnwys olrhain perfformiad a chynorthwyo disgyblion eraill i wella'u presenoldeb.

### Crynodeb o ddata presenoldeb Ysgol Uwchradd Willows

| Cyfartaledd blwyddyn (%) PYDd 3 | Presenoldeb 2022/23 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2022/23 (%) | Presenoldeb 2023/24 (%) | Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd 2023/24 (%) | Gwelliant mewn presenoldeb ysgol gyfan (%) | Gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd (%) | Cymharu â deilliannau wedi'u modelu 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 56.1 | 83 | 78.6 | 83.9 | 80.1 | 0.9 | 1.5 | 2.4 |

## Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer gwella presenoldeb

Roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wella presenoldeb bron ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru. Roedd gan lawer ohonynt gynlluniau ar waith i gynorthwyo a herio ysgolion i wella presenoldeb. At ei gilydd, fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau hyn wedi cael digon o effaith. Ers i ni ailddechrau cynnal arolygiadau ar y safle o awdurdodau lleol ym mis Chwefror 2022, rydym wedi rhoi gwella presenoldeb fel argymhelliad mewn pedwar o'r pum awdurdod lleol yr ydym wedi'u harolygu hyd yma.

Er bod awdurdodau lleol wedi parhau i flaenoriaethu gwella'r cymorth a'r her a ddarperir i ysgolion am wella, mae presenoldeb yn parhau i fod yn rhy amrywiol. Nid yw'r gwaith hwn wedi cael effaith ddigonol ar wella presenoldeb ledled Cymru. Yn ychwanegol, mae rhai penaethiaid yn nodi her lle mae awdurdodau lleol yn amharod i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Yn yr achosion mwyaf buddiol, roedd awdurdodau lleol yn pennu Swyddogion Lles Addysg i ysgolion unigol neu glystyrau i weithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i nodi angen a chynllunio ymyrraeth. Helpodd hyn ysgolion a swyddogion i ddarparu cymorth graddedig ar y cyd i ddisgyblion unigol a'u teuluoedd a sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig at wella presenoldeb.

Pan roedd awdurdodau lleol yn dechrau cefnogi gwelliannau mewn presenoldeb, roeddent:

- yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o ddata i nodi tueddiadau a thargedu cymorth
- yn monitro presenoldeb yn eu hysgolion a grwpiau o ddisgyblion
- yn cysylltu ag ysgolion yn rheolaidd ac yn gweithio ochr yn ochr â systemau ysgolion, gan addasu cymorth i weddu i anghenion unigol
- yn darparu cymorth buddiol i ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned
- yn rhannu arfer effeithiol yn rheolaidd ar draws eu hawdurdod eu hunain ac awdurdodau lleol eraill
- yn darparu cymorth ac arweiniad buddiol i ysgolion am ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig a hysbysiadau rhybudd

Pan roedd y gwaith hwn yn llai effeithiol:

- nid oedd gan awdurdodau lleol systemau digon effeithiol i gasglu gwybodaeth gyfoes am bresenoldeb disgyblion

- nid oedd awdurdodau lleol yn defnyddio data presenoldeb yn ddigon trylwyr, gan gynnwys ystyried presenoldeb gwahanol grwpiau o ddisgyblion
- nid oedd awdurdodau lleol yn darparu cymorth amserol na digon rheolaidd i ysgolion
- nid oedd awdurdodau lleol yn gwerthuso effaith eu gwaith nac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ddigon cyflym
- nid oedd awdurdodau lleol yn sicrhau bod swyddogion gwella ysgolion yn herio ac yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion yn ddigonol i wella presenoldeb disgyblion
- roedd awdurdodau lleol wedi lleihau trothwyau ar gyfer ymgysylltiad awdurdodau lleol, a oedd yn ei gwneud yn anodd i ysgolion godi materion yn ddigon cynnar
- nid oedd awdurdodau lleol yn ymgysylltu ag ysgolion a lleoliadau yn ddigon da i ddatblygu eu hymagweddau at wella presenoldeb

Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn gwerthfawrogi cymorth timau Lles Addysg, yn enwedig wrth nodi disgyblion a theuluoedd unigol yr oedd angen cymorth arnynt. Fodd bynnag, teimlai'r mwyafrif ohonynt, pan oeddent yn cyfeirio achosion at swyddogion awdurdodau lleol am gymorth, eu bod yn aml yn ailddechrau ymyriadau yr oedd ysgolion eisoes wedi'u defnyddio gyda'r disgyblion hyn. Teimlai arweinwyr ysgolion y dylai awdurdodau lleol weithio gyda nhw i ddatblygu ymatebion graddedig. Yn ychwanegol, nid oedd llawer o arweinwyr ysgolion yn teimlo bod eu swyddogion gwella ysgolion yn darparu digon o gymorth na her ynghylch gwella presenoldeb, ac yn dweud y byddent yn croesawu ffocws cryfach ar yr agwedd hon ar eu gwaith.

## Cwestiynau i gynorthwyo ysgolion wrth werthuso'u gwaith i wella presenoldeb disgyblion

### Cwestiynau wrth ystyried cyfraddau presenoldeb:

- Pa mor dda y mae disgyblion yn mynychu yn ein hysgol? Sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion tebyg?
- Pa dueddiadau allwn ni eu gweld ym mhresenoldeb ein disgyblion? Er enghraifft, a oes tueddiadau'n ymwneud ag adeg o'r dydd, diwrnod o'r wythnos neu adeg o'r flwyddyn?
- Sut mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu â phresenoldeb disgyblion eraill?
- Sut mae presenoldeb disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymharu â phresenoldeb disgyblion eraill?
- A oes unrhyw grwpiau blwyddyn lle mae presenoldeb yn hynod gryf neu wan?
- A oes unrhyw grwpiau eraill o ddisgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder?

### Cwestiynau wrth ystyried y cymorth ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion:

- Pa mor dda ydym ni'n cofnodi ac yn dadansoddi data presenoldeb, ac yn nodi meysydd i'w gwella?
- Pa mor dda ydym ni'n hyrwyddo presenoldeb da?
- Pa mor dda ydym ni'n gweithio gyda theuluoedd a'r gymuned i gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb isel?
- Pa mor dda ydym ni'n ymateb lle mae disgyblion yn absennol oherwydd bod eu lles yn cael ei effeithio'n andwyol pan fyddant yn mynychu'r ysgol?
- Pa mor effeithiol yw ein gwaith gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb isel?
- Os oes unrhyw ddisgyblion ar amserlen lai ar gyfer presenoldeb ysgol, a yw'r trefniadau ar gyfer eu haddysg yn briodol ac yn cael eu monitro'n agos?

### Cwestiynau wrth ystyried effaith arweinyddiaeth ar wella presenoldeb disgyblion:

- A oes gan arweinwyr drosolwg da o bresenoldeb, gan gynnwys meysydd i'w gwella?
- Pa mor dda ydym ni fel arweinwyr yn cynllunio ar gyfer gwelliant mewn presenoldeb?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau i gefnogi presenoldeb da?
- Pa effaith y mae ein gwaith wedi'i chael o ran gwella presenoldeb disgyblion?
- Pa mor gywir a thrylwyr yw ein dadansoddiad o ddata presenoldeb?

# Y camau nesaf

## Gwella presenoldeb ledled Cymru

| Llywodraeth Cymru | Ysgolion | Awdurdodau Lleol | Estyn |
|---|---|---|---|
| **Gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb** | **Gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb** | **Gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb** | **Gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb** |
| Darparu gwybodaeth fwy rheolaidd i ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi gwerthuso a gwella presenoldeb | Gwerthuso cyfraddau presenoldeb yn rheolaidd ac yn drylwyr | Cynorthwyo ysgolion i wella'u hymagweddau at werthuso cyfraddau presenoldeb | Parhau i hyrwyddo ffocws cryf ar bresenoldeb yn ystod arolygiad a gweithgarwch dilynol |
| Datblygu ymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau i hyrwyddo manteision presenoldeb cadarnhaol | Cryfhau cyfathrebu â rhieni / gofalwyr i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da | Gwella lefelau her a chymorth i arweinwyr ysgolion o ran presenoldeb | Cofnodi a hyrwyddo arfer effeithiol o ran presenoldeb |
| Ystyried sut gellir targedu cyllid yn well i gefnogi gwelliannau mewn presenoldeb, er enghraifft archwilio ffyrdd o gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel | Gwella prosesau i gasglu barn rhieni / gofalwyr a disgyblion nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd | Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio cyllid yn dda | |
| | | Sicrhau bod | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymagweddau at wella presenoldeb yn adeiladu'n effeithiol ar waith ysgolion | |

## Dadansoddiad data manwl o gyfraddau presenoldeb ar ôl y pandemig

O ganlyniad i'r pandemig, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata presenoldeb wedi'i ddilysu ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019-2020, 2020-2021 a 2021-2022. Er mwyn darparu gwybodaeth am bresenoldeb, casglon nhw ddata presenoldeb o systemau gwybodaeth reoli ysgolion bob wythnos, ond ni aeth y data hwn trwy'r gwiriadau ansawdd arferol (Llywodraeth Cymru, 2023b). Fodd bynnag, pan gymharwyd y data wedi'i ddilysu ar gyfer 2022-2023 â'r data hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023, gwelwyd ei fod yn gywir, i raddau helaeth. Mae'r data a gasglwyd o systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn dangos mai'r gyfradd presenoldeb ar gyfer disgyblion uwchradd o oedran gorfodol (y rhai ym Mlynyddoedd ysgol 7-11) ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022 oedd 85.2%. Os caiff y ffigur hwn ei gymharu â'r ffigur swyddogol ar gyfer 2022-2023, sef 87.5% (Llywodraeth Cymru, 2023a), mae'n dangos bod presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi cynyddu 1.5 pwynt canran rhwng 2021-2022 a 2022-2023 (er bod hyn yn cymharu â data wedi'i ddilysu a data heb ei ddilysu).


Mae'r data o gasgliadau data presenoldeb heb ei ddilysu Llywodraeth Cymru yn awgrymu nad yw'r cynnydd hwn wedi cael ei gynnal yn y flwyddyn academaidd bresennol hyd yma. Y gyfradd presenoldeb ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd yn ystod hanner tymor cyntaf 2023-2024 oedd 89.3%, sydd 0.3 pwynt canran yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr un cyfnod y llynedd, sef 89.6% (Llywodraeth Cymru, 2023b). Er ein bod yn nhymor cyntaf y flwyddyn ysgol o hyd, mae cyfraddau presenoldeb fel arfer yn well ar ddechrau'r flwyddyn ac mae hyn yn awgrymu nad yw cyfraddau presenoldeb wedi gwella eleni, ac wedi aros yn ystyfnig o isel. Roedd y gyfradd presenoldeb ar gyfer yr hanner tymor cyntaf eleni yn is ar gyfer pob blwyddyn ysgol nag yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Mewn cyferbyniad, roedd y data presenoldeb wythnosol ar gyfer disgyblion yn y sector cynradd yn dangos tuedd o wella. Yn hanner tymor cyntaf 2022-2023, y gyfradd presenoldeb ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 1 i 6 oedd 92.7% (Llywodraeth Cymru,

2023b). Yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn academaidd hon, roedd y gyfradd wedi cynyddu 1.4% pwynt i 93.2% (Llywodraeth Cymru, 2023b).

Mae Ffigur 2 yn dangos bod y cyfraddau absenoldeb awdurdodedig ac absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu'n sylweddol yn 2022-2023, ac mai'r twf yn y ddwy gyfradd hyn oedd i'w gyfrif am y twf mewn absenoldeb cyffredinol.

**Ffigur 2: Canran y sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb rhwng 2014/15 a 2022/23**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a

## Presenoldeb grwpiau o ddisgyblion

### Presenoldeb yn ôl blwyddyn ysgol

Mae Ffigur 3 yn dangos y gwahaniaeth rhwng presenoldeb grwpiau blwyddyn ysgolion uwchradd yn 2018-2019 a 2022-2023. Mae'r data'n dangos y bu'r dirywiad ym mhresenoldeb disgyblion oedran uwchradd gryn dipyn yn waeth ar gyfer disgyblion hŷn yn y sector uwchradd. Mae'r gostyngiad yng nghyfradd presenoldeb disgyblion ym Mlwyddyn 11 ddwywaith yn fwy nag ydyw ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 7.

**Ffigur 3: Presenoldeb disgyblion yn ôl grŵp blwyddyn, 2018-2019 a 2022-2023**

| | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018-2019 | 95.0 | 94.1 | 93.4 | 93.4 | 93.2 |
| 2022-2023 | 90.6 | 88.4 | 87.2 | 86.6 | 84.5 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwahaniaeth | -4.4 | -5.7 | -6.2 | -6.8 | -8.7 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a

## Presenoldeb yn ôl rhywedd

Cyn y pandemig, roedd gwahaniaethau bach yn unig rhwng presenoldeb bechgyn a merched oedran uwchradd. Roedd y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn 0.3 pwynt canran, ac yn 2018-2019, nid oedd unrhyw wahaniaeth (Llywodraeth Cymru, 2023a). Fodd bynnag, mae Ffigur 4 yn dangos bod presenoldeb bechgyn oedran uwchradd un pwynt canran yn uwch na phresenoldeb merched yn 2022-2023.


**Ffigur 4: Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd yn ôl rhywedd, 2014/15 i 2022/23**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a

Pan gaiff y data hwn ei ddadansoddi yn ôl blwyddyn ysgol, mae Ffigur 5 yn dangos, wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, fod cyfraddau presenoldeb bechgyn yn uwch na chyfraddau presenoldeb merched. Mae'r data'n dangos bod hyn hefyd yn wir yn 2022-2023, ond bod y bylchau o ran rhywedd wedi tyfu'n sylweddol. Y bwlch o ran rhywedd mewn presenoldeb ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 oedd +1.7 pwynt canran ar gyfer 2022-2023.

**Ffigur 5: Bwlch pwynt canran rhwng canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd rhwng gwrywod a benywod yn ôl grŵp blwyddyn rhwng 2017/18 a 2022/23**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a

## Presenoldeb yn ôl cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim (PYDd)

Ym mis Ionawr 2023, roedd 20.9% o ddisgyblion oedran uwchradd gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2023f). Cyn y pandemig, arhosodd cyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn weddol gyson, sef tua 89 i 90%. Mae'r bwlch rhwng presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn aros yn weddol gyson hefyd, sef tua phum pwynt canran. Fodd bynnag, mae cyfnod y pandemig wedi cael effaith fwy negyddol o lawer ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch rhwng presenoldeb y grŵp hwn a'u cyfoedion wedi tyfu i dros ddeg pwynt canran. Yn ychwanegol, mae'r gyfradd presenoldeb ar gyfer y disgyblion hyn wedi disgyn islaw 80%. Mae hyn yn gyfystyr â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn colli un diwrnod yr wythnos neu un hanner tymor o wersi bob blwyddyn, ar gyfartaledd.

**Ffigur 6: Presenoldeb disgyblion yn ôl cymhwyster i gael PYDd, 2013/14 i 2022/23**

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn gymwys i gael PYDd | 89.3 | 89.7 | 90.2 | 90.1 | 89.6 | 89.5 | 79.4 |
| Ddim yn gymwys i gael PYDd | 94.5 | 94.7 | 95.0 | 94.9 | 94.7 | 94.7 | 89.8 |
| Gwahaniaeth | -5.2 | -5.0 | -4.8 | -4.9 | -5.0 | -5.2 | -10.4 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a

## Presenoldeb yn ôl anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Rhwng 2018-2019 a 2022-2023, bu newidiadau sylweddol yn y maes anghenion addysgol arbennig (AAA) yn sgil cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf ADYTA'). Felly, byddai'n anodd cymharu presenoldeb y disgyblion hynny oedd ag AAA yn 2018-2019 â'r rhai sydd ag ADY neu AAA yn 2022-2023. Yn 2022-2023, cyfradd presenoldeb disgyblion oedd ag ADY neu AAA oedd 82.5% o gymharu ag 88.5% ar gyfer disgyblion nad oedd ganddynt ADY (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae'r bwlch hwn, sef 5.9 pwynt canran, yn fwy na'r bwlch a welwyd yn 2018-2019, sef 3.5 pwynt canran. Mae hyn yn awgrymu y gallai presenoldeb disgyblion ag ADY fod wedi cael ei effeithio'n fwy na'u cyfoedion.

## Presenoldeb yn ôl ethnigrwydd


Dirywiodd presenoldeb yr holl grwpiau ethnig rhwng 2018-2019 a 2022-2023. Roedd lefel y gostyngiadau ym mhresenoldeb y rhan fwyaf o grwpiau ethnig yn debyg i'r rhai a welwyd yn genedlaethol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae presenoldeb dau grŵp ethnig wedi dirywio'n sylweddol. Gostyngodd presenoldeb disgyblion sy'n Sipsiwn 12.4 pwynt canran i 70.6%, a gostyngodd presenoldeb disgyblion sy'n Deithwyr 21.9 pwynt canran i 63.3% (Llywodraeth Cymru, 2023a).

## Absenoldebau parhaus

Hyd at 2023, ystyriwyd bod disgyblion yn absennol yn barhaus os oeddent yn absennol o'r ysgol am o leiaf 20% o'r sesiynau hanner diwrnod pan oedd ysgolion ar agor, heb gynnwys diwrnodau HMS. Roedd hyn yn gyfystyr â disgyblion yn colli un diwrnod yr wythnos o'u haddysg. O 2023, bydd disgyblion yn awr yn cael eu hystyried yn absennol yn barhaus os ydynt yn absennol am o leiaf 10% o sesiynau hanner diwrnod (Llywodraeth Cymru, 2023g).

Rhwng 2007-2008 a 2013-2014, fe wnaeth cyfran y disgyblion a oedd yn absennol yn barhaus fwy na haneru. Wedyn, cynhaliwyd y gwelliant hwn tan 2018-2019. Mae Ffigur 7 yn dangos bod y gostyngiad yng nghanran y disgyblion a oedd yn absennol yn barhaus wedi dilyn tuedd debyg i'r gyfradd absenoldebau cyffredinol. Fodd bynnag, gellir gweld bod canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl y pandemig. Yn 2022-2023, roedd ychydig llai nag un o bob chwech o ddisgyblion yn absennol am fwy na 20% o'u haddysg. I gymhlethu hyn, y gyfradd gyfartalog o ran presenoldeb yn 2022-2023 ar gyfer y chweched rhan o'r garfan hon oedd 60.7%, sy'n gyfystyr â bod yn absennol am ddeuddydd ym mhob wythnos.

**Ffigur 7: Absenoldeb cyffredinol ac absenoldeb parhaus disgyblion, 2007/08 i 2022/23**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023e

Mae Ffigur 8 yn dangos bod rhyw un o bob wyth o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol am o leiaf 20% o’u haddysg cyn y pandemig, o gymharu â thua 1 o bob 33 o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys. Mae’r ddau ffigur wedi dirywio’n sylweddol ar ôl y pandemig. Yn 2022-2023, collodd dros draean o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o leiaf 20% o’u haddysg.

**Ffigur 8: Canran y disgyblion sy’n absennol yn barhaus, yn ôl cymhwyster i gael PYDd, 2013/14 i 2022/23**

| Cymhwyster i gael PYDd | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn gymwys i gael PYDd | 13.7 | 12.4 | 11.1 | 11.5 | 11.8 | 12.7 | 35.6 |
| Ddim yn gymwys i gael PYDd | 3.1 | 2.8 | 2.4 | 2.5 | 2.6 | 3.0 | 11.2 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023e

## Amrywiad yn effaith y pandemig ar y cyfraddau presenoldeb mewn gwahanol ysgolion

At ei gilydd, disgynnodd presenoldeb yng Nghymru 6.3 o bwyntiau canran rhwng 2018-2019 a 2022-2023. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol o ran faint o newid fu i

bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd unigol yng Nghymru. Mewn un ysgol uwchradd yng Nghymru, gostyngodd y gyfradd presenoldeb 1.3 pwynt canran yn unig, ond yn yr ysgol lle bu'r gostyngiad mwyaf, disgynnodd presenoldeb bron i 18 pwynt canran. Yn yr un modd, mae amrywiad mawr yng nghyfran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus mewn gwahanol ysgolion uwchradd. Y gyfradd isaf yw 2.7%, ond mae dros 40% yn yr ysgol â'r gyfradd uchaf.

Yn 2018-2019, roedd cyfraddau presenoldeb llawer o ysgolion yng Nghymru yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol, gyda bron i 80% o ysgolion o fewn 1.5 pwynt canran i'r ffigur hwn. Yn 2022-2023, roedd tua 40% o ysgolion o fewn 1.5 pwynt canran i'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2018-2019, y gwahaniaeth rhwng yr ysgol sydd â'r gyfradd presenoldeb uchaf yng Nghymru a'r ysgol â'r gyfradd presenoldeb isaf yng Nghymru oedd 8.5 pwynt canran. Y ffigur cyfatebol yn 2022-2023 oedd 19.7 pwynt canran. Roedd y gyfradd presenoldeb yn 75.1% yn yr ysgol â'r gyfradd presenoldeb isaf. Roedd disgyblion yn yr ysgol hon yn absennol am chwarter o'u haddysg, ar gyfartaledd.

**Ffigur 9: Amrywiad mewn cyfraddau presenoldeb ysgolion, 2017/18, 2018/19, 2022/23**

| | 2017/18 | 2018/19 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Canran yr ysgolion o fewn 1% o'r cyfartaledd cenedlaethol | 56.8 | 58.8 | 28.3 |
| Canran yr ysgolion o fewn 1.5% o'r cyfartaledd cenedlaethol | 80.9 | 77.9 | 40.5 |
| Gwyriad safonol o gyfraddau presenoldeb ysgolion | 1.4 | 1.4 | 2.9 |
| Amrediad cyfraddau presenoldeb ysgolion | 8.8 | 8.5 | 19.7 |

Sylwer: Mae ffigurau yn y tabl hwn yn deillio o ysgolion a oedd yn weithredol o'r flwyddyn 2022/23 ymlaen, ac oedd â data presenoldeb ar gael.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a


## Cydberthynas rhwng canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac absenoldeb parhaus

Mae'r pecynnau data craidd sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys gweddillebau ar gyfer presenoldeb. Maent yn dynodi pa mor dda y mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn cymharu â lefel ddisgwyliedig presenoldeb ar gyfer ysgol sydd â'r lefel honno o gymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae cydberthynas gref rhwng canran gyfartalog tair blynedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r gyfradd presenoldeb, fel bod y gweddillebau'n darparu mesur trylwyr o bresenoldeb ysgol, sy'n ystyried cyd-destun yr ysgol.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu gweddillebau mewn ffordd debyg ar gyfer canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus ar hyn o bryd, sy'n golygu nad oes gan

ysgolion fesur trylwyr i farnu eu heffeithiolrwydd yn ei erbyn wrth fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus. Mae Ffigur 10 yn awgrymu bod cydberthynas gadarnhaol rhwng y ffactorau hyn.

**Ffigur 10: Canran gyfartalog 3 blynedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus, 2022/23**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023a

Yn 2018-2019, roedd lefelau absenoldebau parhaus yn isel. Fodd bynnag, mae'r cynnydd nodedig yn y cyfraddau hyn yn 2022-2023 yn dangos bod angen i ysgolion gynnal gwerthusiad trylwyr o effeithiolrwydd eu darpariaeth i fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus, sy'n cynnwys dadansoddiad o ddata cymharol. Felly, mae angen mwy o ddata cymharol yn y maes hwn ar hyn o bryd.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaethau â 40 o arweinwyr ysgolion, 22 o awdurdodau lleol a dadansoddiad o adroddiadau arolygu ers i ni ailddechrau arolygu ym mis Chwefror 2022. Dewiswyd ysgolion uwchradd i ffurfio rhan o'r sampl lle nad oeddent mewn categori gweithgarwch dilynol, nid oeddent wedi cael eu harolygu yn y chwe mis diwethaf, ac nid oedd disgwyl iddynt gael eu harolygu yn y chwe mis nesaf. Hefyd, diystyriwyd yr ysgolion uwchradd hynny a oedd wedi cymryd rhan mewn adolygiad thematig yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr holl drafodaethau ar-lein yn ystod tymor yr hydref 2023. Hefyd, llywiwyd yr adroddiad gan holiadur agored yr ymatebodd 18 ysgol uwchradd iddo (mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys isod).

Hefyd, cynhaliom ddadansoddiad manwl o'r data cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023. Helpodd hyn i lywio trafodaethau a nodi arfer effeithiol.

Hoffai Estyn ddiolch i'r canlynol am gymryd rhan yn yr adolygiad thematig hwn:

| Ysgol | Sector | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Eirias | Uwchradd | Conwy |
| Ysgol Gyfun Trefynwy | Uwchradd | Sir Fynwy |
| Ysgol Gyfun Coed-duon | Uwchradd | Caerffili |
| Coedcae | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Llangefni | Uwchradd | Ynys Môn |
| Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff | Uwchradd | Wrecsam |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Uwchradd | Caerdydd |
| Ysgol Gyfun Cas-gwent | Uwchradd | Sir Fynwy |
| Ysgol Bryn Alyn | Uwchradd | Wrecsam |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Alban | Uwchradd | Torfaen |
| Ysgol Gyfun Y Pant | Uwchradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlfforddd | Uwchradd | Sir Benfro |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | Uwchradd | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Basaleg | Uwchradd | Casnewydd |
| Ysgol Esgob Vaughan | Uwchradd | Abertawe |
| Ysgol Uwchradd Y Fflint | Uwchradd | Sir y Fflint |
| Cefn Hengoed | Uwchradd | Abertawe |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Y Creuddyn | Uwchradd | Conwy |
| Ysgol Uwchradd Prestatyn | Uwchradd | Sir Ddinbych |
| Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant | Uwchradd | Caerdydd |
| Ysgol Stanwell | Uwchradd | Bro Morgannwg |
| Ysgol Uwchradd Aberteifi | Uwchradd | Ceredigion |
| Ysgol Gyfun Heolddu | Uwchradd | Caerffili |
| Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre | Uwchradd | Merthyr Tudful |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | Uwchradd | Caerdydd |
| Ysgol Gyfun Tredegar | Uwchradd | Blaenau Gwent |
| Ysgol Gyfun Aberpennar | Uwchradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Dyffryn Aman | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Maesydderwen | Uwchradd | Powys |
| Ysgol Eifionydd | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Caldicot | Uwchradd | Sir Fynwy |
| Ysgol Gatholig Rufeinig a Chanolfan 6ed Dosbarth Sant Joseff | Uwchradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Joseff Sant | Uwchradd | Casnewydd |
| Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff | Uwchradd | Wrecsam |
| Ysgol Ardudwy | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Gyfun Maesteg | Uwchradd | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Uwchradd Llyswyry | Uwchradd | Casnewydd |
| Ysgol David Hughes | Uwchradd | Ynys Môn |
| Ysgol Penweddig | Uwchradd | Ceredigion |
| Ysgol Y Strade | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Greenhill | Uwchradd | Sir Benfro |
| Ysgol Bro Dinefwr | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Emlyn | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |

## Cwestiynau arolwg

**1. Dewiswch eich ysgol o’r gwymplen:**

**2. Dewiswch eich awdurdod lleol o’r gwymplen:**

**3. Dewiswch eich rôl o'r rhestr isod:**

**Pennaeth**

**Dirprwy bennaeth / Pennaeth cynorthwyol**

**Swyddog presenoldeb**

**Arall (rhowch fanylion):**

**4. Pa dair strategaeth sy'n fwyaf effeithiol o ran gwella presenoldeb, yn eich barn chi? Amlinellwch yn gryno pam.**

**5. Pa rai o'r canlynol yw'r ffactorau mwyaf sy'n cyfrannu at bresenoldeb gwael yn eich ysgol chi? Rhowch y ffactorau yn nhrefn eu heffaith, gydag 1 fel y ffactor mwyaf.**

| | |
|---|---|
| **Problemau iechyd emosiynol** | |
| **Methu manteisio ar gludiant** | |
| **Diffyg diddordeb yn yr ysgol** | |
| **Materion yn ymwneud â'r cwricwlwm** | |
| **Ffactorau economaidd-gymdeithasol** | |
| **Bwlio neu aflonyddu** | |
| **Problemau iechyd corfforol** | |
| **Materion teuluol** | |

**Arall (rhowch fanylion):**

### 6. Beth yw'r prif rwystrau rhag gwella presenoldeb, yn eich barn chi?

### 7. A ydych chi'n fodlon â'r gefnogaeth rydych chi'n ei chael fel ysgol i wella presenoldeb?

**Bodlon iawn**
**Bodlon**
**Ddim yn siŵr/dim barn**
**Anfodlon**
**Anfodlon iawn**

**Esboniwch pam?**

### 8. A ydych chi'n fodlon â'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd i wella presenoldeb?

**Bodlon iawn**
**Bodlon**
**Ddim yn siŵr/dim barn**
**Anfodlon**
**Anfodlon iawn**

**Esboniwch pam?**

### 9. A oes unrhyw gefnogaeth ychwanegol yr hoffech chi ei chael?

**10. A hoffech chi gymryd rhan mewn ymchwil i bresenoldeb yn y dyfodol, fel cyfweliadau neu grwpiau ffocws? Os felly, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost isod.**

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Burtonshaw, S., Dorrell, E. (2023) Listening to, and learning from, parents in the attendance crisis. London: Public First. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.publicfirst.co.uk/wp-content/uploads/2023/09/ATTENDANCE-REPORT-V02.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Estyn (2014) Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Presenoldeb%2520mewn%2520ysgolion%2520uwchradd%2520-%2520Medi%25202014.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Keppens, G. (2023) School absenteeism and academic achievement: Does the timing of the absence matter? *Learning and Instruction,* 86. Ar gael o: https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0959475223000385 [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2009) *Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/9072/9/090327nbaractionplancy_Redacted.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2011a) *Cynllun Gweithredu Diwygiedig Ymddygiad a Phresenoldeb.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2011b) *Datganiad Ysgrifenedig – Rhyddhau bandiau ar gyfer ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rhyddhau-bandiau-ar-gyfer-ysgolion-uwchradd [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2012) *Fframwaith presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/fframwaith-presenoldeb-ar-gyfer-cymru-gyfan [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Cyflwyniadau Grant Presenoldeb Consortia*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013b) *Ymchwiliad i Ymddygiad a Phresenoldeb – Ymateb Llywodraeth Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013c) *Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-ar-gyfer-hysbysiadau-cosb-am-gollir-ysgol-yn-rheolaidd.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023a) *Absenoldebau o ysgolion uwchradd: Medi 2022 i Awst 2023.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fwww.gov.wales%2Fsites%2Fdefault%2Ffiles%2Fstatistics-and-research%2F2023-10%2Fabsenteeism-from-secondary-schools-september-2022-to-august-2023-revised-936.ods&wdOrigin=BROWSELINK [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023b) *Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi 2022 i 24 Gorffennaf 2023.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir-5-medi-2022-i-24-gorffennaf-2023 [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023c) *Datganiad Ysgrifenedig: Absenoldeb disgyblion ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-absenoldeb-disgyblion-ysgol [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023d) *Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-06/perthyn-ymgysylltu-a-chyfranogi-canllawiau.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023e) *Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ôl awdurdod addysg lleol.* Caerdydd: StatsCymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Absenteeism/absenteeismbypupilsofcompulsoryschoolageinmaintainedsecondaryandspecialschools-by-localeducationauthority [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023f) Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd). Caerdydd: StatsCymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/pupillevelannualschoolcensussummarydata-by-school [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Llywodraeth Cymru (2023g) Ymyrraeth gynnar yn allweddol i fynd i'r afael â phresenoldeb. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/ymyrraeth-gynnar-yn-allweddol-i-fynd-ir-afael-phresenoldeb [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Reid, K. (2008) *Adroddiad ar Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR).* Llywodraeth Cymru; Prifysgol Fetropolitan Abertawe. [Ar-lein]. Ar gael o:

https://www.home-education.org.uk/articles/wc/wc-nbar-origional-review.pdf
[Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2023) *Attendance and Persistent Absence: Evidence brief for Education Select Committee Inquiry*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/production/documents/Attendance-and-Persistent-Absence-ESC-Submission.pdf?v=1701675929 [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Sefydliad Materion Cymreig (2011) *Mae addysgu'n gwneud gwahaniaeth.* Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.iwa.wales/agenda/2011/02/teaching-makes-a-difference/ [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Senedd Cymru (2013) *Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad.* Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://busnes.senedd.cymru/documents/s19651/Adroddiad%20-%20Awst%202013.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]

Senedd Cymru (2022) *Absenoldeb disgyblion.* Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.wales/media/jcvef0z5/cr-ld15456-e.pdf [Darllenwyd 12 Rhagfyr 2023]